**ATODIAD X**

## Yr Adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel – Fframwaith ar gyfer Newid

| DATRYS PROBLEMAU YN SEILIEDIG AR DYSTIOLAETH<br>1. Sefydlu/cynyddu i'r eithaf a chynnal prosesau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth sy'n adnabod achosion sylfaenol materion diogelwch cymunedol er mwyn eu hatal rhag digwydd? | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **MATER A ADNABUWYD** | **RHWYSTRAU** | **FFACTORAU SY'N GALLUOGI** | **YR HYN Y MAE ANGEN IDDO NEWID** | **CYNIGION** |
| 'Blino' ar asesu statudol a strategol | • Dadfuddsoddi parhaus mewn adnoddau dadansoddol (digonedd o ddata ond dim digon o ddadansoddi)<br>• Gormod o 'asesiadau statudol' yn arwain at ddyblygu/gorgyffwrdd<br>• Gormod o arweiniad a chyfarwyddyd gan y Llywodraeth, ddim yn gydgysylltiedig, yn tynnu partneriaid cyflawni mewn cyfeiriadau croes<br>• Setiau data anghyson yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol ardaloedd/ partneriaethau<br>• Mae angen bysellu dwbl a glanhau data llafur-ddwys, diffyg | • Cytundeb ynghylch 'setiau data' sylfaenol cyffredin e.e. Adran 17A<br>• Canllawiau mwy cydgysylltiedig ond llai cyfarwyddol gan y Llywodraeth sy'n adlewyrchu gorgyffyrddiadau a chydymddibyniaeth<br>• Mwy o ddadansoddwyr, wedi'u cydleoli neu'n cydgynhyrchu<br>• Rheolwyr strategol sy'n 'ymwybodol o ddadansoddi' i wella'r modd y comisiynir cynhyrchion dadansoddol<br>• Cytundeb ynghylch setiau data a fformatau cyffredin (e.e. mater gyda Heddlu Gwent) | • Lliflinio a phrif-ffrydio gofynion 'asesu' statudol – gweithgarwch rheolaidd yn hytrach na dechrau a pheidio bob yn ail<br>• Gwelliannau i drefniadau presennol ar gyfer casglu a rhannu data<br>• Buddsoddi o'r newydd mewn capasiti ac adnoddau dadansoddol (rhesymeg buddsoddi i arbed)<br>• Mae modelau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth yn dod yn 'fusnes craidd'<br>• Mwy o rôl i wyddonwyr cymdeithasol ac ymchwil gymdeithaosl (yr hyn sy'n gweithio, yr hyn nad yw'n gweithio)<br>• Yn ôl at yr hanfodion – | • Datblygu model mwy holistaidd ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth strategol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a hynny'n cael ei ategu gan ganllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch dulliau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth ac anogaeth gref i 'gyfuno' adnoddau priodol<br>• Datblygu setiau data 'sylfaenol' cyffredin i'w defnyddio mewn asesiadau poblogaeth strategol<br>• Ysgogi mwy o fuddsoddi mewn adnoddau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhifau Adnabod Unigryw cyn troshaenu a dadansoddi<br>• Dim digon o ddadansoddi, mwy o goladu a chyflwyno setiau data – dim digon o ofyn ‘pam?’<br>• Anghysondeb safonau casglu a chofnodi data – mae gan yr heddlu safonau cyson ar gyfer cofnodi digwyddiadau ond nid oes gan eraill<br>• Anallu i gael mynediad at ddata personol, hyd yn oed ar ffurf gyfanredol<br>• Diffyg ‘patrymau rhanbarthol’ cydffiniol<br>• Diffyg dealltwriaeth am wahaniaethau rhwng data rheoli perfformiad a data cudd-wybodaeth a dadansoddiadau priodol<br>• Amseroldeb (neu oedi) o ran argaeledd data<br>• Mae agwedd ‘mi wnaiff y tro’ yn hybu defnydd o ddata amhriodol (e.e. peidio â chasglu’r data cywir neu’r ddaearyddiaeth/ amlder ddim yn gywir)<br>• Mae’r hyn sy’n fesuradwy’n cael ei wneud yn bwysig | • Rhwyddineb mynediad at ddata personol cyfanredol neu ddienw (e.e. pyrth)<br>• Cytundebau prosesu data ar gyfer dadansoddi data personol<br>• Modelau cydweithredol ar ffurf ‘hwb’ data neu arsyllfa ddata gyda phyrth<br>• Rheolwyr strategol sy’n deall rheoli perfformiad a’r gwahaniaeth rhwng allbynnau a chanlyniadau<br>• Ôl troed rhanbarthol cyffredin ar draws themâu (e.e. iechyd, yr heddlu, tân, gofal cymdeithasol, addysg a.y.b.)<br>• Buddsoddi mewn meddalwedd a systemau priodol<br>• Prosesau/pyrth rhannu data awtomataidd neu led-awtomataidd mewn amser real<br>• Cytundebau amlasiantaethol ynghylch safonau data<br>• Cytundebau amlasiantaethol ynghylch datblygu data gyda derbyniad gan y | SARA, PAT, RAT, NIM a.y.b.<br>• Rhoi gorchwylion gwell i ddadansoddwyr trwy gomisiynu cynhyrchion dadansoddol<br>• Mae angen ‘datblygu’ mwy o ddata effeithiol<br>• Mwy o werth yn cael ei roi ar ddata a dadansoddi a rôl hynny o ran llywio busnes (e.e. Tesco)<br>• Mwy o fuddsoddi mewn codi ymwybyddiaeth o fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth a hyfforddiant yn y maes – nid dim ond i ddadansoddwyr ychwaith | amlasiantaethol (e.e. dadansoddwyr, systemau, hyfforddiant, ymchwil, datblygu data) i gefnogi dulliau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth<br>• Sefydlu rhwydwaith amlasiantaethol cenedlaethol o ddadansoddwyr ac ymchwilwyr gwyddor gymdeithasol i gefnogi a hybu gweithgarwch rhannu gwybodaeth, ymchwil, datblygu data, arfer effeithiol a chamau i brif-ffrydio proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth ar draws sefydliadau a phartneriaethau<br>• Sefydlu hybiau, pyrth neu arsyllfeydd data amlasiantaethol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i’w defnyddio gan ddadansoddwyr ac ymchwilwyr<br>• Cydweithio’n agosach gyda’r sector preifat i gadarnhau costau a manteision prif-ffrydio methodolegau busnes seiliedig ar gudd- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Data (yn enwedig ymgynghori) yn cael ei gadw mewn seilos ac mae dyblygu'n anochel<br>• Mae baich dadansoddol partneriaeth yn tueddu i ddod i ran dadansoddwyr yr heddlu, yna ALlau ond dadansoddwyr iechyd hefyd<br>• Galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd am ddadansoddwyr – sefydliadol yn dod yn gyntaf a'r bartneriaeth yn ail | Llywodraeth<br>• Gwneud yr hyn sy'n bwysig yn fesuradwy<br>• Lliflinio prosesau casglu data trwy roi terfyn ar gasglu data diystyr<br>• Rhwydweithiau dadansoddwyr ac ymchwilwyr (e.e. GAIN, IRAP) i rannu data ac arfer<br>• Arweinwyr strategol o sefydliadau partneriaeth yn cytuno ar flaenoriaethau cyffredin ar gyfer rhoi gorchwylion i ddadansoddwyr | | wybodaeth ac archwilio'r posibilrwydd o optimeiddio caledwedd a meddalwedd busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth ar gyfer defnydd mwy effeithiol yn y sector gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru |
| Cyndynrwydd i rannu data, yn enwedig data personol ond data amhersonol hefyd | • Diffyg dealltwriaeth am 'borth' Adran 115<br>• Rheolwyr 'diogelu' data rhy ochelgar<br>• Risg o fygythiadau seibr a hacio<br>• Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ddim wedi'i ddeall na'i fabwysiadu'n llawn<br>• Heriau cyfreithiol dros y 'diben' y cafodd y data ei gasglu ar ei gyfer yn wreiddiol<br>• Ddim yn gwybod beth dydych chi ddim yn ei wybod – gall sefydliadau fod yn | • Cytundebau prosesu data sy'n cynnwys dadansoddi<br>• Hyfforddiant ar Adran 115, 'porth' arall a Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru<br>• Pecyn cymorth o dempledi 115 a phrotocol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru<br>• 'Pecyn cymorth' i ymarferwyr o 'byrth' perthnasol (e.e. MASH Cwm Taf)<br>• Mesurau a systemau diogelu priodol (e.e. | • Gwelliannau i brotocolau rhannu data a hyfforddiant a systemau rhannu/rheoli data<br>• Newid mewn diwylliannau tuag at 'Fentro Rhannu' a deall y risgiau (i unigolion, cymunedau ac enw da sefydliadau) os ydynt yn methu â rhannu<br>• Uwch reolwyr yn grymuso gweithredwyr rheng-flaen i rannu'n briodol<br>• Mwy o ffocws ar systemau rheoli a throsglwyddo data gyda | • Defnyddio'r rhwydwaith cenedlaethol a argymhellir (gweler yr adran uchod) i adolygu effeithiolrwydd trefniadau presennol Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru ac i adeiladu ar arfer effeithiol (e.e. GAIN)<br>• Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ar gyfer Cymru sy'n egluro 'pyrth' a mecanweithiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | eistedd ar ddata gwerthfawr<br>• Mae sefydliadau'n 'colli' data personol trwy ddulliau rheoli data di-glem ond yn dal i fod yn baranöig ynglŷn â rhannu, er bod trefniadau diogelu'n fwy caeth mewn perthynas â gwybodaeth a rennir<br>• Effaith anhysbys ac ansicrwydd Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018<br>• Effaith jig-so gyda darlun anghyflawn am fod data yn eisiau | amgryptio )<br>• Defnyddio meddalwedd dadansoddol an-ddynol (cloddio data a phontio)<br>• Cydleoli neu o leiaf gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb tebyg i MARAC mae hefyd yn helpu i oresgyn yr effaith jig-so)<br>• Meithrin perthnasoedd = ymddiriedaeth<br>• Cysyniad 'dadansoddwyr a gymeradwywyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' yn cael ei gydnabod gan yr holl bartneriaid | mesurau diogelu wedi'u cynnwys<br>• Storfa o ffynonellau data fel bod yr holl bartneriaid yn gallu gweld pa ddata posibl all fod ar gael dan gytundeb rhannu neu brosesu | cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol (yn seiliedig ar yr adolygiad a argymhellir)<br>• Sefydlu cysyniad unigolion/grwpiau 'a gymeradwywyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' neu 'sy'n cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' i gynnal dadansoddiad o ddata personol dan gytundebau prosesu data |
| Anallu i feincnodi neu asesu cynnydd tuag at wella canlyniadau mewn modd effeithiol | • Nid oes 'set ddata gyffredin ar gyfer Diogelwch Cymunedol' mwyach (e.e. Adran 17A)<br>• Canllawiau anghyson neu anghyflawn gan y Llywodraeth (e.e. asesiadau llesiant BGCau)<br>• Gormod o ffocws ar symptomau (e.e. troseddau) a dim digon ar ffactorau achosol (e.e. Profiadau Niweidiol yn ystod | • Cytundeb ynghylch 'setiau data' sylfaenol cyffredin (e.e. Adran 17A)<br>• Canllawiau mwy cydgysylltiedig gan y Llywodraeth sy'n adlewyrchu gorgyffyrddiadau a chydymddibyniaeth rhwng ffrydiau data<br>• Cytundebau amlasiantaethol ynghylch safonau data<br>• Cytundebau amlasiantaethol | • Ffocws newydd ar ffordd o feddwl sy'n seiliedig ar ganlyniadau mewn prosesau cynllunio busnes, comisiynu gwasanaethau a rheoli perfformiad<br>• Mwy o fuddsoddi mewn datblygu data (gwneud yr hyn sy'n bwysig yn fesuradwy) a safonau cofnodi cyffredin<br>• Sefydlu patrymau rhanbarthol mwy eglur, mwy cydffiniol | • Datblygu setiau data 'sylfaenol' cyffredin i'w defnyddio mewn asesiadau poblogaeth strategol<br>• Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch dulliau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth gan gynnwys yr angen am ffordd briodol o feddwl sy'n seiliedig ar ganlyniadau a'r angen i ddatblygu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Plentyndod)<br>• Setiau data anghyson yn cael eu defnyddio mewn gwahanol ffyrdd gan wahanol ardaloedd/ partneriaethau<br>• Anghysondeb safonau casglu a chofnodi data – mae gan yr heddlu safonau cyson ar gyfer cofnodi digwyddiadau ond nid oes gan eraill<br>• Diffyg 'patrymau rhanbarthol' cydffiniol | ynghylch datblygu data gyda derbyniad gan y Llywodraeth<br>• Cymhwyso 'gwyddor gymdeithasol' yn fwy i ddeall ffactorau achosol a 'beth sy'n gweithio'<br>• Ôl troed rhanbarthol cyffredin ar draws themâu (e.e. iechyd, yr heddlu, tân, gofal cymdeithasol, addysg a.y.b.) | • Sefydlu set ddata gyffredin sylfaenol ar gyfer asesiadau strategol | data<br>• Sefydlu rhwydwaith amlasiantaethol cenedlaethol o ddadansoddwyr ac ymchwilwyr gwyddor gymdeithasol i gefnogi a hybu gweithgarwch rhannu gwybodaeth, ymchwil, datblygu data, arfer effeithiol a chamau i brif-ffrydio proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth ar draws sefydliadau a phartneriaethau |
| Mae'r drefn o gomisiynu gwasanaethau neu ddatrysiadau'n aml yn seiliedig ar ddata anghyflawn ynghylch anghenion/bylchau a dadansoddiad anghyflawn o'r 'hyn sy'n gweithio' | • Comisiynu gwasanaethau ac ymyriadau trawsbynciol (e.e. Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, Camddefnyddio Sylweddau, tai, cyflawnwyr) mewn seilos thematig gyda darlun anghyflawn<br>• Gormod o ffocws ar ddata ynghylch symptomau (e.e. troseddau) pan fo dylunio'r datrysiadau mwyaf effeithiol yn dibynnu ar ddeall siwrneiau personol a sut y cyrhaeddodd | • Comisiynu cydweithredol yn seiliedig ar bartneriaethau i gydgynhyrchu gwasanaethau<br>• Ffocws ar ddinasyddion yn ganolog i'r gwasanaeth – dilyn siwrne'r dinesydd (model Kafka) yn hytrach na'r hyn sy'n gweddu i asiantaethau<br>• Modelau gwasanaeth 'prif ganolfan a lloerennau' siopau un stop a.y.b.<br>• Datblygu data'n seiliedig ar ganlyniadau penodol | • Angen buddsoddi mewn hyfforddiant a sgiliau ar gyfer comisiynu'n wirioneddol trwy bartneriaeth (Model Camddefnyddio Sylweddau)<br>• Mwy o gydnabyddiaeth i rôl a gwerth ychwanegol cynnwys defnyddwyr gwasanaethau/ arbenigwyr trwy brofiad yn y broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Mwy o gydnabyddiaeth i rôl a gwerth ychwanegol y trydydd sector yn y broses o | • Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch prosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn amlasiantaethol (cydweithredol) ac yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth ac sy'n ategu ac yn adeiladu ar ganllawiau statudol presennol (e.e. Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | pobl yno (e.e. troseddau)<br>• Nid yw 'comisiynu' fel y'i gelwir yn gomisiynu go iawn (e.e. democratiaeth blwyfol yn hytrach na chydgynhyrchu seiliedig-ar-dystiolaeth)<br>• Diffyg gwir arbenigedd ym maes comisiynu cydweithredol o fewn partneriaid a phartneriaethau<br>• Diffyg 'llais y dinesydd' wrth gomisiynu gwasanaethau, ymwneud cyfyngedig gan ddefnyddwyr gwasanaethau nes eu bod yn rhy hwyr<br>• Mae hyd yn oed comisiynu mwy cadarn yn aml yn peidio â chynnwys gwerthuso (rhy ddrud)<br>• Mae comisiynu'n aml yn cael ei ystyried yn broses sy'n dechrau a pheidio bob yn ail yn hytrach nag ailgomisiynu esblygol parhaus<br>• Mae marchnadeiddio'r trydydd sector (yn enwedig darparwyr gofal cymdeithasol) yn | • Dealltwriaeth fwy cynaliadwy am 'werth am arian' (h.y. rhatach = ffug ddarbodaeth)<br>• Buddsoddi a chynnwys mewn ymchwil a gwerthuso<br>• Cynnwys gwerthuso o'r dechrau un fel proses barhaus o fonitro contractau<br>• Dulliau cydweithredol a chydgynhyrchu o ddylunio a darparu gwasanaethau'n seiliedig ar gonsortia o grwpiau cydweithredol o arbenigwyr yn hytrach na chontractau sengl gyda darparwyr cyffredinol<br>• Mwy o hyblygrwydd gyda chontractau a Chytundebau Lefel Gwasanaeth i alluogi'r gwasanaeth i addasu'n hyblyg yn seiliedig ar gudd-wybodaeth<br>• Rhwydweithiau dadansoddwyr ac ymchwilwyr (e.e. GAIN, IRAP) i rannu data ac arfer<br>• Cydymffurfio â NIM yn ganolog i gynllunio a rheoli busnes<br>• Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn | gynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Mwy o gydnabyddiaeth i rôl a gwerth ychwanegol gwyddor gymdeithasol yn y broses o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Cael gwared ar frath cystadleuaeth a grëwyd trwy farchnadeiddio'r trydydd sector<br>• Dychwelyd at egwyddorion NIM/SARA wrth gynllunio a rheoli busnes ym maes diogelwch cymunedol<br>• Newid yn y drefn o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a buddsoddi ynddynt, o ddarpariaeth ar adeg argyfwng i ddull sy'n fwy cynaliadwy gan ei fod yn rhagfynegol, yn ataliol ac yn seiliedig ar ymyrryd yn gynnar<br>• Rhoi'r gorau i gysyniad arolygon o 'ofn troseddau' gan ffafrio methodolegau sy'n fwy soffistigedig ac yn fwy cadarn yn wyddonol<br>• Newid mewn diwylliannau statudol tuag at wir 'ffocws ar y dinesydd' wrth | • Sefydlu rhaglen hyfforddiant briodol ar gomisiynu mewn partneriaeth (fel rhan o ymateb 'Gwybodaeth a Sgiliau Priodol' ehangach)<br>• Ysgogi mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n rhoi sylw i'r galw yn y dyfodol ac yn ei reoli<br>• Datblygu dull sy'n fwy soffistigedig ac yn fwy cadarn yn wyddonol o fonitro canfyddiad a hyder y cyhoedd yn lle mesuriadau sy'n defnyddio arolygon o 'ofn troseddau' ac arolygon traddodiadol o droseddau yng Nghymru<br>• Datblygu a hyrwyddo dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr yn y trydydd sector |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sbarduno cystadleuaeth frwd ac amharodrwydd i rannu cudd-wybodaeth am fod hynny'n sensitif yn fasnachol<br>• Proffiliau o Broblemau (e.e. Proffiliau Troseddau Difrifol a Threfnedig, Proffiliau Lleol Gwrth-derfysgaeth) yn seiliedig ar ddealltwriaeth anghyflawn neu rannol ond yn dal i gael eu defnyddio i gomisiynu datrysiadau<br>• Roedd NIM yn gweithio! Ond mae wedi cael ei golli neu wedi erydu dros amser<br>• Mae prosesau comisiynu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu llywio gan sefydliadau sydd wedi'u bwriadu i ymateb/adweithio i argyfwng yn hytrach na rhagfynegi ac atal<br>• Mae ymchwil a gwerthuso academaidd yn gylchol ac yn cael eu hailadrodd, eu dyblygu drosodd a throsodd | canolbwyntio'n fwy o safbwynt sefydliadol ar gynllunio gwasanaethau yn fwy hirdymor a chynaliadwy ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – mwy o rôl gomisiynu?<br>• Dull 'ei wneud unwaith a threfnu ei fod ar gael yn eang' o ymchwil a gwerthuso academaidd<br>• Dull mwy soffistigedig a mwy seiliedig ar wyddoniaeth o fesur a monitro canfyddiad (e.e. Rhwydweithiau Unigolion Allweddol (KINs))<br>• Mwy o ymdrech i gynnwys ac ymgysylltu â sectorau 'anodd i'w cyrraedd' a llai o sylw'n cael ei roi i'r rhai arferol a'r rhai sy'n gweiddi uchaf<br>• Arfer newydd mewn perthynas ag arfer sy'n seiliedig ar 'storïau dinasyddion' (e.e. SenseMaker)<br>• Rhaglen comisiynu ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau'n seiliedig ar ddealltwriaeth gyffredin o fodel(au) ac yn cael ei chyflwyno | flaenoriaethu, llunio a darparu gwasanaethau | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Bwlch rhwng Canfyddiad a Realiti (e.e. mae ofn troseddau'n waeth mewn ardaloedd â chyfraddau troseddu isel) eto mae'r gwaith blaenoriaethu a'r broses o gynllunio datrysiad neu weithgarwch datrys yn aml yn seiliedig ar broblemau canfyddedig<br>• Effaith jig-so: dim ond rhan o'r jig-so sydd gan asiantaethau unigol a phan fo dull tebyg i MARAC/MASH yn cael ei fabwysiadu (e.e. 'llinell amser' weledol Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid) mae ffactorau achosol a chyfleoedd a gollwyd i ymyrryd yn dod yn amlwg | gyda rhaglen hyfforddi sylweddol (IPC)<br>• Gall dulliau tebyg i MARAC/MASH liniaru'r effaith jig-so ac maent weithiau'n dangos bod 'trothwy' ar gyfer ymyrryd wedi cael ei gyrraedd | | |

**ADNODDAU A STRWYTHURAU**

**2. Sefydlu a chynnal strwythurau cyflawni effeithiol ac ymatebol sy'n gweithio'n gydweithredol i ddod o hyd i ddatrysiadau hirdymor i faterion diogelwch cymunedol?**

| MATER A ADNABUWYD | RHWYSTRAU | FFACTORAU SY'N GALLUOGI | YR HYN Y MAE ANGEN IDDO NEWID | CYNIGION |
|---|---|---|---|---|
| Effeithiau cyni: gwasanaethau rheng-flaen | • Cylch dieflig lle mae gormod o | • Y gallu i roi mwy o ffocws ar 'ganlyniadau' | • Mae angen i Fyrddau Gwasanaethau | • Darparu arweinyddiaeth ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ar ben eu tennyn, yn methu ag ateb y galw, 'jam' partneriaethau'n cael ei daenu'n rhy denau, crebachu i mewn i seilos | 'flaenoriaethau' uniongyrchol sy'n cystadlu â'i gilydd (rheoli'r galw mewn argyfwng) a dim lle nac adnoddau i ystyried newid tuag at atal (rheoli'r galw yn y dyfodol)<br>• Gormod o gyfarfodydd wedi'u gwasgaru ymhlith rhy ychydig o staff – bellach yn gorfod blaenoriaethu'r cyfarfodydd y byddant yn eu mynychu<br>• Mae 'partneriaeth' yn dal i beidio â chael ei hystyried yn 'fusnes craidd' ond yn rhywbeth 'braf i'w wneud' os gallwch chi<br>• Diffyg eglurder o ran cost-effeithiolrwydd ymyriadau amlasiantaethol (roedd archwiliad cost troseddau'r Swyddfa Gartref yn arfer bod ar gael)<br>• Anallu i fuddsoddi mewn gwaith atal ar adeg gynharach heb ddadfuddsoddi mewn gwaith rheoli argyfyngau<br>• Mae'r trothwyon ar gyfer cynnwys | mwy hirdymor yn hytrach na blaenoriaethau dybryd<br>• Tystiolaeth glir o gyflawni arbedion costau trwy fentrau partneriaeth ac ataliol<br>• Mae dulliau Lle/Cyllideb ar y Cyfan yn rhoi ystyr gwirioneddol i BGCau a chydweithio ar gyfer gwasanaethau mwy cynaliadwy a chanlyniadau llesiant gwell<br>• Mae cydleoli timau amlddisgyblaethol yn lleihau nifer y cyfarfodydd ac yn cynyddu gallu, galluedd a'r arfer o rannu gwybodaeth – mae'r cyfan yn fwy na'r rhannau unigol<br>• Canolfannau gwasanaethau ar y cyd yn dod â gwasanaethau 999 a gwasanaethau awdurdodau lleol ynghyd<br>• Arfer newydd o ran dull 'carfan wib' amlddisgyblaethol, amlasiantaeth o adweithio/ymateb i faterion sy'n dod i'r | Cyhoeddus fabwysiadu mwy o ddulliau o'r math Lle ar y Cyfan/Cyllideb ar y Cyfan a chydweithio ac integreiddio gwirioneddol rhwng gwasanaethau prif-ffrwd<br>• Mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU roi mwy o ffocws ar ganlyniadau a newid diwylliannol yn hytrach na strwythurau, prosesau, mewnbynnau ac allbynnau<br>• Model ad-drefnu Llywodraeth Leol sy'n ategu trefniadau gweithio rhanbarthol ar draws patrymau cydffiniol<br>• Lliflinio a symleiddio strwythurau partneriaethau ar draws y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddileu achosion o ddyblygu a siopau siarad<br>• Rhoi'r gorau i ladd coed a llosgi tanwyddau ffosil, mwy o ddefnydd o dechnoleg a dulliau rhithwir i hwyluso rhwydweithio | ysgogiad cryfach ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chyllidebu mewn modd sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gyrff y sector cyhoeddus (BGCau neu PDCau), gan roi ystyriaeth yn enwedig i hyblygrwydd sy'n symud cyfran y buddsoddiad o reoli'r galw 'mewn argyfwng' ac ar y pryd i atal, ymyrryd yn gynnar a rheoli'r galw yn y dyfodol<br>• Rhesymoli 'patrymau' rhanbarthol a gofynion a arweinir yn genedlaethol ar gyfer strwythurau partneriaethau (e.e. CONTEST, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a.y.b.) i sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu a llywodraethu a throsolwg effeithiol sy'n llywio'r broses o gyflawni'n lleol<br>• Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion 'prif-ffrydio' A17 trwy ganllawiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwasanaethau allweddol (e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) yn rhy uchel ar gyfer atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Gormod o 'batrymau' rhanbarthol sy'n cystadlu â'i gilydd<br>• Strwythurau partneriaethau helaeth a chymhleth gyda threfniadau llywodraethu gwael neu ddim trefniadau llywodraethu o gwbl wedi'u creu gan 'flaenoriaethau' neu Lywodraeth Cymru/ Y Swyddfa Gartref/ Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (e.e. Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol, CONTEST, Troseddau Difrifol a Threfnedig)<br>• Nid yw grantiau blynyddol gan y Llywodraeth yn gweithio – graddfeydd amser yn rhy fyr, dim sefydlogrwydd o ran y gwasanaeth nac amser i gael effaith<br>• Anhyblygrwydd | amlwg mewn gwahanol gymdogaethau<br>• Prosesau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth i wella arferion targedu a datrys problemau<br>• Adolygu a diweddaru strwythurau partneriaeth i liflinio yn unol â blaenoriaethau a adnabuwyd yn hytrach na threfniadau hanesyddol<br>• Mwy o ddefnydd o dechnoleg i'w gwneud yn bosibl cynnal trafodaethau partneriaeth 'rhithwir' yn hytrach na chyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>• Cyfundrefnau ariannu mwy hirdymor gyda mwy o hyblygrwydd, mwy o ffocws ar ganlyniadau a llai o ymboeni am 'gyfrif ffa' – mwy o ymddiriedaeth mewn partneriaid cyflawni gan y Llywodraeth<br>• Mae partneriaid o'r trydydd sector yn cynnig gwerth ychwanegol – cronfeydd elusennol | amlasiantaeth, gan ddisodli'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>• Gwneud i gyfarfodydd gyfrif – dylai'r cyfarfodydd hynny y mae'n rhaid iddynt ddigwydd greu newid<br>• Mwy o bwyslais ac ysgogiad i atal ac ymyrryd yn gynnar wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Adolygu'r 'trothwyon' ar gyfer gofynion gwasanaethau i'w gwneud yn bosibl darparu adnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy<br>• Cyfundrefnau ariannu mwy hirdymor a mwy hyblyg yn hytrach na buddsoddiadau difeddwl byrdymor<br>• Newid yn niwylliant sefydliadau tuag at 'bartneriaeth' a 'gweithio cynaliadwy' fel rhywbeth prif-ffrwd yn hytrach na rhywbeth sy'n 'beth braf i'w wneud'<br>• Mwy o gydnabyddiaeth a chydraddoldeb i'r trydydd sector/sector cymunedol | newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Darparu cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwy hyblyg ac yn fwy hirdymor i gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Adolygu Cynllun y Trydydd Sector a chytundebau/ compactau eraill i gryfhau rôl a chydraddoldeb sefydliadau'r trydydd sector mewn trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfundrefnau ariannu'r Llywodraeth – gormod o amodau, gormod o ymdrech i ennill yr arian ac yna monitro gwariant am wobr mor fach<br>• Mae cyni'n gweithio'n groes i gydleoli wrth i deitlau swyddi pobl dyfu – pwy yw'r rhai gorau i fod wedi'ch cydleoli gyda hwy?<br>• Mae cyni'n effeithio ar y trydydd sector gyda thoriadau i grantiau a threfniadau ar gontractau allanol yn erydu'r farchnad<br>• Nid oes sancsiwn amlwg am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 er bod y gofyniad yn statudol<br>• Gorwelion etholiadol – mentrau polisi byrdymor wedi'u bwriadu i gyflawni amcanion gwleidyddol sy'n ennill pleidleisiau yn hytrach na chynaliadwyedd | ychwanegol neu anghyfyngedig a chysylltiadau a chryfderau cymunedol, gwell ymgysylltiad<br>• Dulliau 'hwb' cymunedol neu gymdogaeth yn dod ag ystod o wasanaethau cyhoeddus yn nes at ddinasyddion<br>• Mae sail statudol i'r gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 ond ar hyn o bryd mae 'heb ei brofi' mewn cyfraith achosion | | |
| Patrymau rhanbarthol | • Mae'r diffyg 'patrymau rhanbarthol' cydffiniol yn creu agendâu/ blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd – yn | • Mae patrymau cydffiniol yn ei gwneud yn bosibl gweithio'n rhanbarthol i raddau mwy helaeth/mewn | • Patrymau a threfniadau partneriaeth rhanbarthol | • Cwblhau adolygiad trawsadrannol sylfaenol o'r holl batrymau rhanbarthol a ddefnyddir wrth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | enwedig i gyrff rhanbarthol sy'n gorfod gweithio ar draws ardaloedd mwy nag un ALl<br>• Mae'r ymgyrch gan Lywodraeth Cymru tuag at weithio'n fwy rhanbarthol yn creu 'haenau' ychwanegol o bartneriaethau gyda materion bwydo i fyny/i lawr (e.e. CONTEST, Cydlyniant)<br>• Mae diogelwch cymunedol, yn ôl ei natur, yn gymunedol (lleol) felly ceir tensiynau mewn perthynas â gweithio'n rhanbarthol i gefnogi prosesau cyflawni lleol (e.e. 5 ALl Gwent a sut i daro cydbwysedd o ran y 'flaenoriaeth' rhwng Trefynwy a Philgwenlli)<br>• Mae rôl sylweddol gwasanaethau arbenigol bach yn y trydydd sector (Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cyfiawnder cymunedol) yn gwneud dulliau rhanbarthol a | ffordd symlach (e.e. patrymau Gogledd Cymru)<br>• Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur rhwng partneriaethau rhanbarthol a lleol, gyda chyfathrebu effeithiol trwy raeadru i fyny/i lawr<br>• Cysondeb o ran y cynrychiolwyr o sefydliadau partner mewn fforymau rhanbarthol/lleol<br>• Cysylltiadau a sianeli cyfathrebu eglur rhwng y strategaeth genedlaethol a chyflawni'n rhanbarthol neu'n lleol (e.e. CONTEST, Troseddau Difrifol a Threfnedig)<br>• Rhesymeg glir ar gyfer yr hyn sy'n gweithio orau ar lefel ranbarthol a/neu leol yn hytrach na dyblygu neu orfodi trefniadau amhriodol sydd yr un fath i bob ardal<br>• Rheolaeth ofalus ar faterion democrataidd lleol, gan gydnabod bod gwleidyddion yn atebol yn y pen draw | | weithio mewn partneriaeth (e.e. PDCau, BGCau, PCRh a.y.b.) i sefydlu patrwm mwy cydffiniol, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cliriach a chael gwared ar wrthdaro a gorgyffyrddiadau a dyblygu diangen. Dylai rhanbarthau fod wedi'u diffinio yn ôl rhesymeg eglur sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio orau ar lefel ranbarthol a/neu leol a chyda'r dinesydd yn y canol<br>• Symud tuag at ad-drefnu sefydliadol i sicrhau patrwm mwy cydffiniol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | darbodion maint yn anodd i'w cyflawni<br>• Mae rhanbarthau fel arfer yn hanesyddol, yn wleidyddol neu'n gyfleus yn sefydliadol ac yn aml nid ydynt yn seiliedig ar ystyriaethau demograffig-ddaearyddol | i'w priod etholwyr, nid partneriaethau rhanbarthol<br>• Mwy o ystyriaeth i anghenion demograffig-ddaearyddol (e.e. dinas-ranbarth neu Bowys/Swydd Amwythig) | | |
| Erydiad gwybodaeth a sgiliau priodol mewn PDCau | • Colli 'fframwaith' cyffredin ac iaith gyffredin ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i wella Diogelwch Cymunedol – yn flaenorol roedd y Swyddfa Gartref yn buddsoddi'n helaeth mewn hyfforddiant a oedd â gogwydd at bartneriaethau (e.e. hyfforddiant datrys problemau, technegau atal a lleihau troseddau, rheoli prosiectau a pherfformiad, comisiynu ar y cyd, cyfathrebu ac ymgysylltu a.y.b.)<br>• Cyfoeth o adnoddau – pecynnau hyfforddi, pecynnau cymorth, canllawiau, gwaith ymchwil a gwerthuso, archwiliadau cost | • Mae model dysgu a datblygu profedig ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn dal i fod ar gael (er bod angen ei ddiweddaru) ac nid yw'r egwyddorion sylfaenol (e.e. SARA) wedi newid, y cwbl y mae angen ei wneud yw eu diweddaru (e.e. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)<br>• Er eu bod yn wasgaredig, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil a gwerthuso a phecynnau cymorth o ran 'yr hyn sy'n gweithio' – y mae cryn dipyn o'r cynnwys yn dal yn berthnasol – yn dal i fod ar gael a gellid eu coladu mewn llyfrgell DC ar-lein, wedi'i chyfoethogi gan | • Adfer a diweddaru'r gronfa 'gwybodaeth a sgiliau priodol' o fewn DC<br>• Cyfleoedd gwell ar gyfer rhwydweithio, rhannu arfer effeithiol a datblygu polisi/arfer<br>• Cysylltiadau agosach rhwng ymarferwyr DC ac ymarferwyr newydd ym maes Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac ymarferwyr eraill newydd sy'n wybodus am drawma<br>• Cydnabod 'proffesiynoldeb' y Swyddog Diogelwch Cymunedol/Rheolwr Diogelwch Cymunedol – yn seiliedig ar wybodaeth a sgiliau priodol a'r cysyniad 'prif chwip' yn hytrach na'r rheolwr | • Ailsefydlu tîm polisi ac arfer 'partneriaeth' Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru<br>• Ailsefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau ar-lein i Gymru sy'n cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso ym maes diogelwch cymunedol<br>• Ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu ym maes Diogelwch Cymunedol sy'n benodol i Gymru ac yn cynnwys themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon (datrys problemau mewn partneriaethau, proses fusnes |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | troseddau, asesiadau PDCau, rhwydweithiau cymheiriaid (e.e. Y Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol Cenedlaethol (NCSN)) ddim ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref na'r Is-adran Diogelwch Cymunedol mwyach<br>• Nid yw Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WACSO) a NCSN yn darparu lefel effeithiol o gymorth i Swyddogion Diogelwch Cymunedol mwyach nac yn lobïo ar ddatblygu polisïau DC<br>• Cryn dipyn o fynd a dod ers 2010-11 yn y gronfa fach o Swyddogion/Rheolwyr Diogelwch Cymunedol gyda 'chof corfforaethol' a sgiliau allweddol yn cael eu colli<br>• Y rôl wedi'i gwanhau ers dechrau'r cyni i 'diogelwch cymunedol a...' neu '...a diogelwch cymunedol'<br>• Gwahaniaethau lleol rhwng rôl sy'n canolbwyntio'n fwy ar bolisi strategol a rôl | waith a phecynnau cymorth mwy diweddar<br>• Mae Cymdeithas Swyddogion Diogelwch Cymunedol Cymru (WASCO) yn dal i fodoli er bod angen ei diweddaru a'i hadfywio<br>• Mae Llywodraeth yr Alban wedi cydnabod rôl bwysig Rhwydwaith Diogelwch Cymunedol yr Alban (SCSN) ac mae'n buddsoddi ynddo fel adnodd ar gyfer gweithio i wella DC<br>• Naturoedd cydweddol gwaith datrys problemau ataliol partneriaethau DC a'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol<br>• Mae'r ddwy fersiwn o rôl y Swyddog/Rheolwr Diogelwch Cymunedol (polisi strategol o'i gymharu â rheolwr gwasanaeth gweithredol) yn hollbwysig o ran llywio agendâu DC mewn amgylcheddau partneriaeth cymhleth (os ydynt yn meddu ar | gwasanaethau DC traddodiadol (ond heb hepgor hynny) | seiliedig ar gudd-wybodaeth, dadansoddi, rheoli a gwerthuso prosiectau, comisiynu, ymgysylltu cymunedol a.y.b.)<br>• Adfywio WACSO fel rhwydwaith cenedlaethol arbenigol mwy cynhwysol o ymarferwyr diogelwch cymunedol arweiniol sy'n gwasanaethu ardal pob awdurdod unedol (o ALlau, yr Heddlu, Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, y Trydydd Sector a.y.b.) ymchwilwyr, llunwyr polisïau – yn seiliedig ar fodel SCSN yn yr Alban – gallai hyn gynnwys yr ail a'r trydydd argymhelliad uchod<br>• Defnyddio'r canllawiau arfaethedig ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod gan bob ALl 'brif chwip' diogelwch cymunedol cydnabyddedig (yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fwy gweithredol fel rheolwr gwasanaeth (gyda'r adnoddau'n crebachu)<br>• Mae partneriaethau'n 'sylfaenu a chynhyrfu' byth a beunydd, ond mae'n beth prin iddynt 'sefydlogi a chyflawni' oherwydd newidiadau cyson mewn personél (e.e. dyrchafiadau yn yr heddlu, etholiadau) | wybodaeth a sgiliau priodol) | | ychwanegol at ddeiliad portffolio etholedig) sy'n gyfrifol am lywio'r agenda DC yng nghyd-destun partneriaeth |
| Datganoli | • Rhaid i asiantaethau DC heb eu datganoli sy'n gweithredu mewn cyd-destun datganoledig blesio dau feistr â blaenoriaethau croes<br>• Mae gweision sifil yn Llundain yn dal i ymgodymu â'r cysyniad bod 'Cymru'n wahanol' ac yn peidio ag ildio o gwbl i wahaniaethau sylfaenol yn y dirwedd cyflawni gweithredol<br>• Pwy sy'n atebol i bwy? Anaml y mae cyfundrefnau arolygu ac archwilio heb eu datganoli'n gweithio gyda chyfundrefnau cyfatebol sydd heb eu datganoli<br>• Pan gyflwynwyd | • Mae arweinwyr asiantaethau DC heb eu datganoli'n hyblyg, yn barod i addasu ac yn greadigol i raddau helaeth ac maent wedi tyfu i fod yn arbenigwyr mewn gweithredu 'ar yr ymylon' rhwng polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>• Mae uchelgais i weld plismona a chyfiawnder yn cael eu datganoli wedi ysgogi dull llawer mwy ymgysylltiol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â materion DC sy'n draddodiadol wedi bod yn cael eu hystyried yn rhai 'heb eu datganoli'<br>• Archwaeth am ddull 'ar | • Arweinyddiaeth gryfach a mwy gweladwy gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i wella DC (e.e. negeseuon eglur i bartneriaid datganoledig megis ALlau ynghylch y flaenoriaeth a roddir i DC a disgwyliadau o ran cydweithio gyda phartneriaid heb eu datganoli megis Comisiynwyr Heddlu a Throseddu)<br>• Cryfhau'r ysgogiad neu'r cymhelliad i'r holl 'awdurdodau cyfrifol' gydymffurfio ag A17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn<br>• Mwy o gydraddoldeb i Gymru mewn perthynas | • Bwrw ymlaen â chamau i ddatganoli plismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru<br>• Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb diweddaru Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.<br>• Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â'r gofynion i 'brif-ffrydio' yn A17 trwy ganllawiau newydd i PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Sefydlu trefniadau gweithio agosach a mwy rheolaidd rhwng yr Is-adran Diogelwch |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fe achosodd hynny i'r Swyddfa Gartref ddatgymalu'r is-adran DC a chymorth ym maes DC gyda'r disgwyliad y byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n llywio'r agenda DC – efallai fod hynny'n gweithio yn Lloegr ond nid yw partneriaid datganoledig mor atebol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru<br>• Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu rôl allweddol o ran pennu polisi plismona a chyfiawnder lleol a rhanbarthol o fewn fframwaith polisi'r DU ac er bod gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu presennol ddealltwriaeth dda am gyfeiriad polisi datganoledig, mae etholiadau'n golygu na ellir cymryd hyn yn ganiataol<br>• Canfyddiad hanesyddol (hyd yn oed os yw'n newid yn araf) bod yr agweddau | y cyd' mwy effeithiol a chefnogol o archwilio ac arolygu a hwnnw'n cael ei ysgogi gan lefelau uwch o weithio mewn partneriaeth – ddim yn briodol 'arolygu/archwilio' mewn seilos mwyach<br>• Parodrwydd asiantaethau heb eu datganoli i 'Gymreigio' eu dulliau cyflawni, eu polisïau a'u prosesau (e.e. ffocws ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod)<br>• Cyfleoedd posibl yn cael eu cynnig gan bwerau trethu yn y dyfodol a'r posibilrwydd o 'ddatganoli gweinyddol' yng nghyd-destun plismona a chyfiawnder (e.e. model Manceinion)<br>• Cyfle i ddefnyddio'r Bil Diwygio Llywodraeth Leol i gryfhau'r gofyniad i 'brif-ffrydio' DC – gellid gweithredu ymhellach ar hyn gyda BILlau, awdurdodau tân a.y.b., ar ryw adeg yn y dyfodol | â ffrydiau ariannu DC heb eu datganoli (e.e. y Gronfa Trawsnewid)<br>• Newid mewn ffocws gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru tuag at gomisiynu seiliedig ar gudd-wybodaeth sy'n defnyddio ffrydiau cyllido mwy hirdymor, llai cyfarwyddol a mwy hyblyg yn hytrach na rowndiau 'cynnig' ar gyfer ffrydiau cyllido hynod gyfarwyddol, byrdymor<br>• Datblygu cyfundrefnau arolygu ac archwilio mwy holistaidd (h.y. rhyngasiantaethol, rhynglywodraethol ar y cyd) a dulliau craffu sy'n cefnogi ac yn gwella trefniadau cynaliadwy ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau gwell o ran diogelwch cymunedol (e.e. lleihau aildroseddu) | Cymunedol, Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gynnwys ystyried cydleoli a gwella fforymau trawsadrannol<br>• Treialu trefniadau arolygu ac archwilio thematig ar y cyd sy'n ymwneud â 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ar DC sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn bethau 'nad oes a wnelont ddim â ni' (e.e. mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, troseddau ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau yn aml yn cael mwy o flaenoriaeth mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru na lleihau aildroseddu)<br>• Mae cyllid 'canlyniadol' a oedd yn cael ei ddarparu ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ac yna ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n cael ei golli i Gymru o ganlyniad i fecanweithiau 'cynnig' (Y Gronfa Trawsnewid) gyda % o gynigion o Gymru'n aflwyddiannus<br>• Mae gwendid y gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn (oen mewn croen blaidd) yn fater y mae'n anodd ymdrin ag ef yng Nghymru | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gan mai deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ydyw | | | |
| Y Trydydd Sector | • Mae cyni'n effeithio ar wasanaethau statudol ond pam nad ydynt yn cydweithio'n agosach gyda gwasanaethau'r trydydd sector ac yn harneisio'u cyfraniadau i ychwanegu gwirfoddoli a hefyd cyllid anstatudol at y darlun?<br>• Mae asiantaethau statudol yn talu gwasanaeth gwefusau i 'gydgynhyrchu' ond nid ydynt wedi ymrwymo'n llawn iddo enghreifftiau o Drosglwyddo Asedau Cymunedol) – mae angen disgwyliadau eglur ar y ddwy ochr;<br>• Nid yw ALlau wastad yn deg, yn agored nac yn dryloyw gyda phartneriaid cyflawni'r 3ydd sector ac mae partneriaid y 3ydd sector yn aml yn ei chael yn anodd darparu'r trefniadau llywodraethu a rheolaeth ariannol ac ati cadarn sy'n ofynnol ganddynt; | • Mae cydweithio a chydgynhyrchu gwirioneddol yn manteisio ar gryfderau'r sector statudol a'r trydydd sector<br>• Mae grwpiau cymunedol yn fwy effeithiol am ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys, rhywbeth y mae'r sector statudol yn ei gael yn anodd<br>• Mae'r trydydd sector yn gallu gweithredu'n gyflymach, yn fwy hyblyg, yn fwy ymatebol ac yn fwy effeithlon na'r sector statudol<br>• Mwy o awch ac ymrwymiad i 'wneud gwahaniaeth' yn sefydliadau'r Trydydd Sector na rhai'r sector statudol – mae angen ichi fod yn frwd ac yn ymrwymedig i weithio i elusen<br>• Mae sefydliadau'r trydydd sector yn gallu darparu llais cymunedol i gydbwyso | • Mwy o gydnabyddiaeth a chydraddoldeb i bartneriaid y trydydd sector ac ymrwymiad gwirioneddol yn hytrach na gwasanaeth gwefusau i gysyniad y 'Gymdeithas Fawr'<br>• Modelau cydweithredol a chydgynhyrchu ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau DC ar draws yr holl bartneriaethau perthnasol a'u priod asiantaethau<br>• Buddsoddi yn yr hyfforddiant a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer comisiynu mewn partneriaeth go iawn (model Camddefnyddio Sylweddau)<br>• Mwy o hyblygrwydd mewn mecanweithiau caffael i leihau i'r eithaf effeithiau negyddol marchnadeiddio a thendro cystadleuol | • Adolygu Cynllun y Trydydd Sector a chytundebau/ compactau eraill i gryfhau rôl a chydraddoldeb sefydliadau'r trydydd sector mewn trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth<br>• Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch prosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn amlasiantaethol (cydweithredol) ac yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth ac sy'n ategu ac yn adeiladu ar ganllawiau statudol presennol (e.e. Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)<br>• Sefydlu rhaglen hyfforddiant briodol ar gomisiynu mewn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • 'Marchnadeiddio' cynyddol gwasanaethau bach, arbenigol yn y trydydd sector trwy Dendro Cystadleuol Gorfodol a dulliau caffael traddodiadol;<br>• Loteri cod post gwasanaethau DC – enghreifftiau, mae un ALl yn ariannu gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac nid yw un arall yn gwneud hynny, gwasanaethau cymunedol arbenigol bach a dyfodd i ddiwallu anghenion lleol – sut i 'wasgaru'r cyfoeth' ond cadw'r natur arbenigol gymunedol;<br>• Nid yw arianwyr statudol yn hoffi talu am 'gostau craidd', dim ond darparu gwasanaethau'n uniongyrchol - amhosibl<br>• Nid yw rhatach yn gost-effeithiol, mae gwasanaethau ymyrryd cymdeithasol mwy effeithiol yn ddrud ond yn rhatach yn y tymor | gwleidyddion plwyfol sy'n gofalu am eu buddiannau eu hunain | | partneriaeth (fel rhan o ymateb 'Gwybodaeth a Sgiliau Priodol' ehangach)<br>• Darparu cyllid sy'n rhoi mwy o 'sylw i'r canlyniadau', sy'n fwy hyblyg ac yn fwy hirdymor i gefnogi trefniadau mwy holistaidd, cydweithredol mewn partneriaeth ar gyfer cynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Datblygu a hyrwyddo dulliau caffael mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus sy'n lleihau i'r eithaf effaith 'marchnadeiddio' ar ddarparwyr yn y trydydd sector<br>• Adfywio WACSO fel rhwydwaith cenedlaethol arbenigol mwy cynhwysol o ymarferwyr diogelwch cymunedol arweiniol sy'n gwasanaethu ardal pob awdurdod unedol (o ALlau, yr Heddlu, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hir (syndrom drws troi) – eto mae'r gost yn aml yn cael pwysiad sylweddol mewn prosesau tendro<br>• Mae partneriaid statudol yn hoffi contractau sengl oherwydd rhwyddineb rheoli – mae'n creu mwy o ddarparwyr cyffredinol na darparwyr arbenigol<br>• Mae diffyg safonau ansawdd gwasanaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol mewn sawl agwedd ar waith DC yn golygu marchnad anghyfartal | | | y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, y Trydydd Sector a.y.b.) ymchwilwyr, llunwyr polisïau – yn seiliedig ar fodel SCSN yn yr Alban – gallai hyn gynnwys yr ail a'r trydydd argymhelliad uchod |
| Ble mae'r gwasanaethau iechyd? | • Mae gan wasanaethau iechyd (ar y cyd ag ysgolion) rôl hollbwysig o ran adnabod materion diogelwch cymunedol yn gynnar (e.e. trais, Camddefnyddio Sylweddau, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod) ac maent yn hanfodol i waith atal ac ymyrryd yn gynnar ar adeg gynharach<br>• Mae tua 70% o'r galw am blismona'n gysylltiedig ag iechyd | • Tystiolaeth gynyddol bod ymarfer sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am drawma (e.e. rheoli achosion yn well) yn lleihau aildroseddu<br>• Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gyfoeth o ddata, cudd-wybodaeth, gwaith ymchwil a dadansoddi i helpu i lywio dull mwy holistaidd a chynaliadwy<br>• Mae rhai partneriaethau wedi cydnabod cymhlethdod | • Buddsoddiad sylweddol mewn gwasanaethau iechyd meddwl (yn enwedig Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed) a chau'r 'bwlch' 16-18<br>• Hyfforddiant mewn ymarfer sy'n seiliedig ar wybodaeth dda am drawma ar gyfer ymarferwyr 'ymyrryd yn gynnar' (e.e. Swyddogion Lles Addysg, Timau Troseddau Ieuenctid)<br>• Model ad-drefnu Llywodraeth Leol sy'n | • Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch prosesau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn amlasiantaethol (cydweithredol) ac yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth ac sy'n ategu ac yn adeiladu ar ganllawiau statudol presennol (e.e. Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | meddwl ond mae PDCau yn ei chael yn anodd cynnwys gwasanaethau Iechyd Meddwl yn effeithiol<br>• Mae BILlau fel arfer yn bartneriaid parod 'o amgylch y bwrdd' ond yn gyndyn o fynd i'w pocedi i ddarparu cyllid craidd ar gyfer gweithgarwch (boed trwy'r BGC neu'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol)<br>• Gormod o ffocws ar 'driniaeth' ac felly rheoli argyfyngau a dim digon ar atal ac ymyrryd yn gynnar<br>• Sefydliadau cymhleth â strwythurau 'gorchymyn a rheoli' sy'n llai na chlir – gyda phwy ydw i'n siarad mewn gwasanaethau iechyd?<br>• Ymddengys fod comisiynu'n perthyn i 2 seilo – ymddengys fod busnes a ariennir â'r gyllideb graidd (triniaeth draddodiadol) a busnes a ariennir â grantiau (Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn | 'iechyd' (h.y. nad yw'n endid unigol) ac yn gweithio i ymgysylltu'n fwy priodol<br>• Gall BILlau ddod â chyfoeth o adnoddau ac arbenigedd (e.e. comisiynu gwasanaethau) i fwrdd y bartneriaeth<br>• Gall meddygon teulu fod â rôl hollbwysig o ran cyrraedd a gweithio gyda chymunedau lleol (e.e. ffocws ar ardal Pilgwenlli)<br>• Enghreifftiau ardderchog (ond bratiog) o arfer effeithiol – e.e. gwasanaethau brysbennu ac alcohol ar gyfer Economi Hwyr y Nos, system goleuadau traffig, ymyriadau camddefnyddio sylweddau, mentrau gwaith rhyw, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol, anaml y maent yn ddarpariaeth brif-ffrwd gan BILlau<br>• Mae'r gofyniad i 'brif-ffrydio yn A17 yn berthnasol i BILlau | ategu trefniadau gweithio rhanbarthol ar draws patrymau cydffiniol<br>• Cyfundrefnau ariannu mwy hirdymor a mwy hyblyg yn hytrach na buddsoddiadau difeddwl byrdymor<br>• Newid yn niwylliant sefydliadau tuag at 'bartneriaeth' a 'gweithio cynaliadwy' fel rhywbeth prif-ffrwd yn hytrach na rhywbeth sy'n 'beth braf i'w wneud'<br>• Mwy o bwyslais ac ysgogiad i atal ac ymyrryd yn gynnar wrth gynllunio a chomisiynu gwasanaethau<br>• Adolygu'r 'trothwyon' ar gyfer gofynion gwasanaethau i'w gwneud yn bosibl darparu adnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy<br>• Lliflinio a symleiddio strwythurau partneriaethau ar draws y lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ddileu achosion o ddyblygu a siopau siarad<br>• Rhoi'r gorau i ladd coed | Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)<br>• Sefydlu rhaglen hyfforddiant briodol ar gomisiynu mewn partneriaeth (fel rhan o ymateb 'Gwybodaeth a Sgiliau Priodol' ehangach)<br>• Datblygu model mwy holistaidd ar gyfer cynnal asesiadau poblogaeth strategol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, a hynny'n cael ei ategu gan ganllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch dulliau busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth ac anogaeth gref i 'gyfuno' adnoddau priodol<br>• Datblygu setiau data 'sylfaenol' cyffredin i'w defnyddio mewn asesiadau poblogaeth strategol<br>• Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ar gyfer Cymru sy'n egluro 'pyrth' a mecanweithiau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a.y.b.) yn amharod i aildrefnu gwasanaethau craidd i gyflawni blaenoriaethau'r bartneriaeth<br>• Rhanbarthol o'i gymharu â lleol – ni all BILlau ddefnyddio dulliau gwahanol mewn ardaloedd gwahanol ac mae angen iddynt ddangos tystiolaeth o gydraddoldeb y gwasanaeth<br>• Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ffocws cryf ar feddwl am y tymor hir, anghenion y boblogaeth a rheoli'r galw yn y dyfodol...ond adnoddau cyfyngedig iawn sydd ganddynt<br>• Mae meddygon teulu'n cyflawni rôl allweddol ond mae'r modd y cânt eu cynnwys yn gymhleth ac yn fratiog<br>• Nid yw partneriaid yn dda iawn am adnabod y manteision i iechyd neu'r arbedion o ran costau a fydd yn deillio o weithgarwch y | (ond nid Iechyd Cyhoeddus Cymru a.y.b.) | a llosgi tanwyddau ffosil, mwy o ddefnydd o dechnoleg a dulliau rhithwir i hwyluso rhwydweithio amlasiantaeth, gan ddisodli'r angen am gyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>• Gwneud i gyfarfodydd gyfrif – y cyfarfodydd hynny y mae'n rhaid iddynt ddigwydd | cyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol (yn seiliedig ar yr adolygiad a argymhellir)<br>• Sefydlu cysyniad unigolion/grwpiau 'a gymeradwywyd gan Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' neu 'sy'n cydymffurfio â Chytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru' i gynnal dadansoddiad o ddata personol dan gytundebau prosesu data<br>• Ysgogi mwy o fuddsoddi mewn gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n rhoi sylw i'r galw yn y dyfodol ac yn ei reoli<br>• Darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad cryfach ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chyllidebu mewn modd sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gyrff y sector cyhoeddus (BGCau neu PDCau), gan roi ystyriaeth yn enwedig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bartneriaeth<br>• Nid yw Is-adran Iechyd Llywodraeth Cymru wedi'i chydgysylltu ag is-adrannau eraill Llywodraeth Cymru felly mae negeseuon cymysg yn cael eu rhannu<br>• Nid yw systemau gwybodaeth iechyd (nifer fawr ohonynt) yn cydgysylltu â'i gilydd, heb sôn am bartneriaid<br>• Nid oes sancsiwn amlwg am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 er bod y gofyniad yn statudol | | | i hyblygrwydd sy'n symud cyfran y buddsoddiad o reoli'r galw 'mewn argyfwng' ac ar y pryd i atal, ymyrryd yn gynnar a rheoli'r galw yn y dyfodol<br>• Rhesymoli 'patrymau' rhanbarthol a gofynion a arweinir yn genedlaethol ar gyfer strwythurau partneriaethau (e.e. CONTEST, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a.y.b.) i sicrhau cyn lleied â phosibl o ddyblygu a llywodraethu a throsolwg effeithiol sy'n llywio'r broses o gyflawni'n lleol<br>• Treialu trefniadau arolygu ac archwilio thematig ar y cyd sy'n ymwneud â 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol<br>• Ceisio cyfleoedd i gryfhau'r ysgogiad ar gyfer cydymffurfio â'r gofyniad i 'brif- |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | ffrydio' yn A17 trwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol a/neu ganllawiau ar gyfer gwasanaethau iechyd |

**LLYWODRAETHU AC ARWEINYDDIAETH**

**3. Integreiddio asesiadau a chynlluniau strategol diogelwch cymunedol â phrosesau asesu a chynllunio statudol eraill (e.e. Y Rhaglen Lywodraethu, prosesau cynllunio sengl BGCau, Cynlluniau Heddlu a Throseddu)?**

| MATER A ADNABUWYD | RHWYSTRAU | FFACTORAU SY'N GALLUOGI | YR HYN Y MAE ANGEN IDDO NEWID | CYNIGION |
|---|---|---|---|---|
| Gormod o ganllawiau a chyfarwyddyd ynghylch 'cyflawni', a'r rheiny'n aml yn groes i'w gilydd, yn dod o wahanol adrannau fewn y Llywodraeth (Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) | • Gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>• Seilos adrannol yn y Llywodraeth (Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru) yn peidio â chyfathrebu â'i gilydd<br>• Dull afrealistig o lunio polisïau nad yw'n seiliedig ar agweddau ymarferol y 'byd go iawn' na thystiolaeth o'r 'hyn sy'n gweithio'<br>• Diffyg cysylltedd a llinell welediad rhwng fforymau llunio polisi ac arfer cenedlaethol ac ymarferwyr rheng-flaen (sut mae cyfarwyddeb genedlaethol yn cael ei | • Mwy o ffocws gan y llywodraeth(au) ar ganlyniadau yn hytrach na strwythurau, prosesau, mewnbynnau ac allbynnau<br>• Cyfathrebu trawslywodraethol a thrawsadrannol gwell i gydgysylltu meysydd polisi cyd-ddibynnol<br>• Cynnwys ymarferwyr ac academyddion yn y broses o lunio polisi seiliedig ar dystiolaeth gyda llunwyr polisi (gwiriadau realiti)<br>• Mae BGCau yn darparu cyfle ar gyfer meddwl a chynllunio a chomisiynu gwasanaethau mewn modd sy'n 'seiliedig ar | • Datganoli plismona a chyfiawnder (boed yn llwyr neu'n weinyddol)<br>• Trefn briodol ar gyfer 'profi polisïau' (e.e. sicrhau nad oes gwrthdaro, bod sail dystiolaeth, agweddau ymarferol ar weithredu) cyn eu cyhoeddi | • Bwrw ymlaen â chamau i ddatganoli plismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru<br>• Sefydlu trefniadau gweithio agosach a mwy rheolaidd rhwng yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gynnwys ystyried cydleoli a gwella fforymau trawsadrannol<br>• Treialu trefniadau arolygu ac archwilio thematig ar y cyd sy'n ymwneud â 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | throsi ar lawr gwlad?)<br>• Strwythurau rhanbarthol cyfarwyddol (e.e. CONTEST, Troseddau Difrifol a Threfnedig) nad ydynt yn cysylltu â threfniadau cyflawni lleol nac yn eu dyblygu<br>• Nid yw'r un peth yn gweddu i bawb (nid yw pob un ohonom yn ffitio dan flanced ranbarthol)<br>• Weithiau ceir diffyg ymddiriedaeth gan y Llywodraeth mewn partneriaid cyflawni, sy'n arwain at ormod o gyfarwyddyd sy'n rhwystr i gyflawni<br>• Canlyniadau gwrthnysig 'dangosyddion' sydd wedyn yn dod yn 'dargedau' (e.e. sancsiynau/datrys a throseddau a ddygwyd gerbron y llys gynt yn ysgogi nifer uwch o gyflawnwyr sy'n dod yn rhan o'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf)<br>• Diffyg meddwl a chyllidebu sy'n seiliedig ar le sy'n anwybyddu seilos | le' ac sy'n rhychwantu seilos thematig i ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gan fynd i'r afael ag achosion sylfaenol | | datganoledig ac annatganoledig perthnasol<br>• Adfywio WACSO fel rhwydwaith cenedlaethol arbenigol mwy cynhwysol o ymarferwyr diogelwch cymunedol arweiniol sy'n gwasanaethu ardal pob awdurdod unedol (o ALlau, yr Heddlu, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, y Trydydd Sector a.y.b.) ymchwilwyr, llunwyr polisïau – yn seiliedig ar fodel SCSN yn yr Alban – gallai hyn gynnwys yr ail a'r trydydd argymhelliad uchod<br>• Darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad cryfach ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chyllidebu mewn modd sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gyrff y sector cyhoeddus (BGCau neu PDCau), gan roi ystyriaeth yn enwedig |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | sefydliadol a thematig ond yn canolbwyntio yn lle hynny ar atal ac ymyrryd yn gynnar, gan fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol | | | i hyblygrwydd sy'n symud cyfran y buddsoddiad o reoli'r galw 'mewn argyfwng' ac ar y pryd i atal, ymyrryd yn gynnar a rheoli'r galw yn y dyfodol |
| 'Tirwedd' partneriaethau aml-thema sy'n ddryslyd ac yn gymhleth (PDCau o'i gymharu â BGCau a.y.b.) | • Fe arweiniodd newidiadau deddfwriaethol 2011 a 'dadreoleiddio' PDCau at Gynlluniau Integredig Sengl gyda byrddau diogelach (nid ym mhobman) OND mae Cynlluniau Integredig Sengl wedi cael eu disodli gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda phwyslais ar lond llaw o flaenoriaethau uchel = dryswch ynghylch trefniadau gweithio a llywodraethu'r PDCau<br>• Dull amrywiol o gynnal asesiad strategol o 'lesiant' – materion DC a data'r System Cyfiawnder Troseddol yn aml yn peidio â chael sylw neu'n cael eu hanwybyddu<br>• Lle mae BGCau yn cydnabod themâu diogelwch cymunedol, yn weddol aml nid | • Lle ceir ymdeimlad clir a chyffredin o 'ranbarth' (e.e. Gwent) mae ymdrechion yn cael eu gwneud i ddatrys statws statudol a threfniadau llywodraethu<br>• Mae rhai BGCau wedi ymgysylltu'n effeithiol iawn â materion a blaenoriaethau DC (e.e. Ffocws ar Bilgwenlli yng Nghasnewydd) ac yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaus gydag adnoddau sylweddol wrth law<br>• Swyddogion/rheolwyr â ffocws pwrpasol ar themâu DC a gwybodaeth a sgiliau priodol<br>• Mae sail statudol i'r gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 ond ar hyn o bryd mae 'heb ei | • Diffyg 'arweinwyr' wedi'u neilltuo i weithio gyda'r Bartneriaeth DC o fewn partneriaid allweddol<br>• Rhesymoli a symleiddio partneriaethau'n strwythurol<br>• Cryfhau'r gofyniad yn A17<br>• Ffocws ar ddatrys problemau trwy ymdrin â'r 'achosion sylfaenol' sy'n gyffredin i'r rhan fwyaf o feysydd o ran gweithio mewn partneriaeth (e.e. Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)<br>• Ein dull o ran newid i weithio ar sail ranbarthol | • Ailsefydlu tîm polisi ac arfer 'partneriaeth' Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru<br>• Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb diweddaru Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.<br>• Ailsefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau ar-lein i Gymru sy'n cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso ym maes diogelwch cymunedol<br>• Ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu ym maes Diogelwch Cymunedol sy'n benodol i Gymru ac yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ydynt yn cofleidio'r agwedd 'lleihau aildroseddu' (yn rhy debyg i gyfrifoldebau'r System Cyfiawnder Troseddol);<br>• PDCau rhanbarthol a byrddau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn ymgodymu â 'statws statudol' a threfniadau llywodraethu clir<br>• Arweinwyr sefydliadol a thematig yn gwisgo gormod o 'hetiau'<br>• Diffyg 'arweinydd' thematig DC â gwybodaeth a sgiliau priodol i lywio prosesau cyflawni'r bartneriaeth<br>• Gormodedd o is-grwpiau a haenau daearyddol, sy'n hanesyddol i raddau helaeth ac yr ychwanegir atynt yn hytrach na diweddaru'r dirwedd partneriaethau yn seiliedig ar flaenoriaeth ac angen<br>• Diffyg dull cydgysylltiedig o ran 'patrymau' rhanbarthol<br>• Cysylltiadau DC cryf â | brofi' mewn cyfraith achosion<br>• Strwythurau partneriaethau eglur ac wedi'u symleiddio'n cael eu hadolygu'n gyson fel eu bod yn dal i fod yn 'addas ar gyfer y diben'<br>• Patrymau gweithredol cydffiniol (e.e. Gogledd Cymru)<br>• Mae gwasanaethau neu gynlluniau gweithredu sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau neu ardaloedd lleol yn croesi llinellau terfyn rhwng partneriaethau (PDC/BGC) | | cynnwys themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon (datrys problemau mewn partneriaethau, proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth, dadansoddi, rheoli a gwerthuso prosiectau, comisiynu, ymgysylltu cymunedol a.y.b.)<br>• Adfywio WACSO fel rhwydwaith cenedlaethol arbenigol mwy cynhwysol o ymarferwyr diogelwch cymunedol arweiniol sy'n gwasanaethu ardal pob awdurdod unedol (o ALlau, yr Heddlu, Swyddfeydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, y Trydydd Sector a.y.b.) ymchwilwyr, llunwyr polisïau – yn seiliedig ar fodel SCSN yn yr Alban – gallai hyn gynnwys yr ail a'r trydydd argymhelliad uchod<br>• Defnyddio'r canllawiau arfaethedig ar gyfer diogelwch |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | byrddau diogelu rhanbarthol ond materion mewn perthynas â pherthnasoedd lleol-rhanbarthol a threfniadau plentyn/oedolyn<br>• Nid oes sancsiwn amlwg am beidio â chydymffurfio â'r gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 er bod y gofyniad yn statudol<br>• Gormod o ffocws ar 'strwythur a phroses' i dicio bylchau a dim digon ar newid diwylliannol - mae BGCau yn aml yn cymryd arnynt eu bod yn gwneud ond nid oes ymgais gwirioneddol at 'gyllidebu seiliedig ar le' i ddatrys materion sy'n flaenoriaeth a sbarduno buddsoddiadau mewn atal ac ymyrryd yn gynnar;<br>• Cyfyng-gyngor o ran taro cydbwysedd rhwng derbyniad strategol a neilltuo adnoddau a newid diwylliannol (bwrdd y BGC) ar y naill law gyda datrys problemau | | | cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod gan bob ALI 'brif chwip' diogelwch cymunedol cydnabyddedig (yn ychwanegol at ddeiliad portffolio etholedig) sy'n gyfrifol am lywio'r agenda DC yng nghyd-destun partneriaeth<br>• Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion 'prif-ffrydio' A17 trwy ganllawiau newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Cwblhau adolygiad trawsadrannol sylfaenol o'r holl batrymau rhanbarthol a ddefnyddir wrth weithio mewn partneriaeth (e.e. PDCau, BGCau, PCRh a.y.b.) i sefydlu patrwm mwy cydffiniol, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cliriach a chael gwared ar wrthdaro a gorgyffyrddiadau a dyblygu diangen. Dylai rhanbarthau fod wedi'u diffinio yn ôl |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a chyflawni'n lleol ar y llaw arall – a yw PDCau yn perthyn rywle yn y canol?<br>• Nid yw'r trydydd sector yn ymwneud rhyw lawer â BGCau – mwy o dicio blychau neu wasanaeth gwefusau fel arfer, ond a yw'r trydydd sector (ychydig fel gwasanaethau iechyd, yn eang iawn ac yn anghydweddol) wedi'i gyflunio mewn modd sy'n ei alluogi i ymgysylltu mewn modd ystyrlon? Rôl i gynghorau gwirfoddol, yn enwedig gan fod elusennau'n aml yn ei chael yn anodd mynychu llawer o gyfarfodydd;<br>• Pa wahaniaethau gweithredol ar y rheng-flaen mae partneriaethau strategol yn eu gwneud? Mae arweinwyr strategol sy'n llawn bwriadau da ac yn rhoi cyfarwyddyd oddi fry yn creu argraff wrth siarad (gan siarad o blaid pethau sy'n dderbyniol i bawb) ac | | | rhesymeg eglur sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio orau ar lefel ranbarthol a/neu leol a chyda'r dinesydd yn y canol<br>• Ystyried ad-drefnu sefydliadol i sicrhau patrwm mwy cydffiniol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn penderfynu ar gyfeiriadau strategol, ond ychydig iawn sy'n newid ar lawr gwlad | | | |
| Datganoli | • Gwahaniaethau polisi rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn sgîl canlyniadau gwahanol mewn etholiadau ac yn newid yn gyson<br>• Rhaid i asiantaethau DC heb eu datganoli sy'n gweithredu mewn cyd-destun datganoledig blesio dau feistr â blaenoriaethau croes neu wrthgyferbyniol<br>• Mae gweision sifil yn Llundain yn dal i ymgodymu â'r cysyniad bod 'Cymru'n wahanol' ac yn peidio ag ildio o gwbl i wahaniaethau sylfaenol yn y dirwedd cyflawni gweithredol<br>• Rhaid i asiantaethau DC heb eu datganoli weithredu 'ar yr ymylon' ac maent weithiau'n wynebu 'gwagle' o ran polisi/proses<br>• Mae cyhoeddiadau gwleidyddol o San Steffan yn aml yn dal | • Mae arweinwyr asiantaethau DC heb eu datganoli'n hyblyg, yn barod i addasu ac yn greadigol i raddau helaeth ac maent wedi tyfu i fod yn arbenigwyr mewn gweithredu 'ar yr ymylon' rhwng polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru<br>• Mae mecanweithiau ar gyfer deialog a negodi trawslywodraethol yn bodoli, er nad ydynt yn cael eu defnyddio'n llawn<br>• Mwy o bragmatiaeth gan Weinidogion Llywodraeth Cymru wrth gydweithredu gydag asiantaethau heb eu datganoli i wella canlyniadau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru<br>• Mae uchelgais i weld plismona a chyfiawnder yn cael eu datganoli wedi ysgogi dull llawer mwy ymgysylltiol gan Lywodraeth Cymru | • Lefelau uwch o ddeialog a chydweithredu trawslywodraethol (o ran Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ond hefyd adrannau mewnol y ddwy) yn arwain at fynd ati ar y cyd i ddatblygu polisi ac arfer plismona a chyfiawnder troseddol sy'n benodol ar gyfer Cymru<br>• Datganoli plismona a chyfiawnder troseddol i Gymru yn y pen draw – naill ai'n llwyr (h.y. model yr Alban) neu o safbwynt gweinyddol (h.y. model Manceinion)<br>• Arweinyddiaeth gryfach a mwy gweladwy gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gweithio mewn partneriaeth i wella DC (e.e. negeseuon eglur i bartneriaid datganoledig megis ALlau ynghylch y flaenoriaeth a roddir i DC a disgwyliadau o ran cydweithio gyda | • Bwrw ymlaen â chamau i ddatganoli plismona a chyfiawnder i Lywodraeth Cymru<br>• Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb diweddaru Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru.<br>• Sefydlu trefniadau gweithio agosach a mwy rheolaidd rhwng yr Is-adran Diogelwch Cymunedol, Y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder – gan gynnwys ystyried cydleoli a gwella fforymau trawsadrannol<br>• Treialu trefniadau arolygu ac archwilio thematig ar y cyd sy'n ymwneud â 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gweision sifil yn annisgwyl ac yn eu gadael heb amser i gael deialog ystyrlon gyda Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r goblygiadau i Gymru<br>• Mae seilos o fewn seilos wedi'u lluosi x2 (e.e. adrannau Llywodraeth Cymru ddim yn gyson ag adrannau'r DU)<br>• Pwy sy'n atebol i bwy? Anaml y mae cyfundrefnau arolygu ac archwilio heb eu datganoli'n gweithio gyda chyfundrefnau cyfatebol sydd heb eu datganoli<br>• Mae'r hyn sy'n cael ei fesur yn cael ei wneud – mae cyfundrefnau archwilio, arolygu a chraffu'n llywio'r broses flaenoriaethu ac ymddygiad sefydliadol (mewn cyfeiriadau gwahanol os nad ydynt yn gydgysylltiedig, e.e. datganoledig o'i gymharu ag annatganoledig)<br>• Cymhlethdod ychwanegol craffu gan Swyddfa Cymru/Yr | mewn perthynas â materion DC sy'n draddodiadol wedi bod yn cael eu hystyried yn rhai 'heb eu datganoli'<br>• Archwaeth am ddull 'ar y cyd' mwy effeithiol a chefnogol o archwilio ac arolygu a hwnnw'n cael ei ysgogi gan lefelau uwch o weithio mewn partneriaeth – ddim yn briodol 'arolygu/archwilio' mewn seilos mwyach<br>• Aeddfedrwydd cynyddol Llywodraeth Cymru a chydnabyddiaeth i'r angen am drefniadau gweithio mwy cynaliadwy a ffocws ar ganlyniadau (yn hytrach na'r broses) yn y dull arwain<br>• Parodrwydd asiantaethau heb eu datganoli i 'Gymreigio' eu dulliau cyflawni, eu polisïau a'u prosesau (e.e. ffocws ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod)<br>• Cyfleoedd posibl yn cael eu cynnig gan bwerau trethu yn y dyfodol a'r posibilrwydd o | phartneriaid heb eu datganoli megis Comisiynwyr Heddlu a Throseddu)<br>• Cryfhau'r ysgogiad neu'r cymhelliad i'r holl 'awdurdodau cyfrifol' gydymffurfio ag A17 o'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn<br>• Mwy o gydraddoldeb i Gymru mewn perthynas â ffrydiau ariannu DC heb eu datganoli (e.e. y Gronfa Trawsnewid)<br>• Datblygu cyfundrefnau arolygu ac archwilio mwy holistaidd (h.y. rhyngasiantaethol, rhynglywodraethol ar y cyd) a dulliau craffu sy'n cefnogi ac yn gwella trefniadau cynaliadwy ar gyfer gweithio mewn partneriaeth i gyflawni canlyniadau gwell o ran diogelwch cymunedol (e.e. lleihau aildroseddu)<br>• | annatganoledig perthnasol<br>• Ailsefydlu tîm polisi ac arfer 'partneriaeth' Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru<br>• Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion 'prif-ffrydio' A17 trwy ganllawiau newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Ystyried ad-drefnu sefydliadol i sicrhau patrwm mwy cydffiniol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ysgrifennydd Gwladol a'r Cynulliad<br>• Cymhlethdod ychwanegol Comisiynwyr Heddlu a Throseddu – gwleidyddion datganoledig mewn sefydliad heb ei ddatganoli'n arwain asiantaeth heb ei datganoli<br>• Pan gyflwynwyd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu fe achosodd hynny i'r Swyddfa Gartref ddatgymalu'r is-adran DC a chymorth ym maes DC gyda'r disgwyliad y byddai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu'n llywio'r agenda DC – efallai fod hynny'n gweithio yn Lloegr ond nid yw partneriaid datganoledig mor atebol i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru<br>• Mae gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu rôl allweddol o ran pennu polisi plismona a chyfiawnder lleol a rhanbarthol o fewn fframwaith polisi'r DU | 'ddatganoli gweinyddol' yng nghyd-destun plismona a chyfiawnder (e.e. model Manceinion)<br>• Cyfle i ddefnyddio'r Bil Diwygio Llywodraeth Leol i gryfhau'r gofyniad i 'brif-ffrydio' DC – gellid gweithredu ymhellach ar hyn gyda BILlau, awdurdodau tân a.y.b., ar ryw adeg yn y dyfodol<br>• Cynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn Adolygiad Llywodraeth Cymru, Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel<br>• Cyfle posibl i swyddogion y Swyddfa Gartref/y Weinyddiaeth Gyfiawnder sydd â ffocws ar 'ddatganoli' i fod wedi'u lleoli yng Nghaerdydd pan fydd Pencadlys newydd Cyllid a Thollau EM yn agor i greu cysylltiadau agosach â Llywodraeth Cymru | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac er bod gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu presennol ddealltwriaeth dda am gyfeiriad polisi datganoledig, mae etholiadau'n golygu na ellir cymryd hyn yn ganiataol<br>• Yn wahanol i'r Alban, nid oes un 'llywodraeth' yn rheoli'r holl feysydd a sbardunau polisi allweddol ar gyfer diogelwch cymunedol<br>• Canfyddiad hanesyddol (hyd yn oed os yw'n newid yn araf) bod yr agweddau ar DC sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol yn bethau 'nad oes a wnelont ddim â ni' (e.e. mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, troseddau ieuenctid a Chamddefnyddio Sylweddau yn aml yn cael mwy o flaenoriaeth mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yng Nghymru na lleihau aildroseddu)<br>• Mae gwendid y gofyniad i 'brif-ffrydio' yn Adran 17 o'r | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ddeddf Troseddau ac Anhrefn (oen mewn croen blaidd) yn fater y mae'n anodd ymdrin ag ef yng Nghymru gan mai deddfwriaeth gan Lywodraeth y DU ydyw<br>• A yw Llywodraeth Cymru yn gwneud digon i ddylanwadu ar Lywodraeth y DU mewn perthynas â chyllid sydd heb ei ddatganoli – yn enwedig arian troseddau ac anhrefn y gall y trydydd sector gynnig amdano (Gwasanaethau Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a gwasanaethau dioddefwyr/ cyflawnwyr); | | | |
| Personoliaethau sy'n llywio partneriaethau (yn ogystal â sefydliadau) | • Gall newid arweinydd sefydliad neu gynrychiolydd/ cadeirydd partneriaeth wneud partneriaeth effeithiol yn aneffeithiol<br>• Mae partneriaethau'n 'sylfaenu a chynhyrfu' byth a beunydd, ond mae'n beth prin iddynt 'sefydlogi a chyflawni' | • Gall arweinydd effeithiol weddnewid partneriaeth aneffeithiol<br>• Mae partneriaethau sy'n gallu cadw 'cof corfforaethol' ac sy'n rheoli ac yn cadw gwybodaeth yn effeithiol mewn sefyllfa well i ddod drwy'r gwaethaf | • Sefydlu disgwyliadau clir ar gyfer ymrwymiad sefydliadol i drefniadau gweithio mewn partneriaeth i wella diogelwch cymunedol | • Defnyddio'r canllawiau arfaethedig ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru i sicrhau bod gan bob ALl 'brif chwip' diogelwch cymunedol cydnabyddedig (yn ychwanegol at ddeiliad portffolio etholedig) sy'n gyfrifol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | oherwydd newidiadau cyson mewn personél (e.e. dyrchafiadau yn yr heddlu, etholiadau) | • Mae proses a systemau'n bwysig i arbed rhag ailddyfeisio'r olwyn a chyfyngu i'r eithaf ar 'sefydlu a chynhyrfu' OND mae angen iddynt ddal i fod yn hyblyg, yn barod i addasu ac yn ymatebol i newidiadau mewn anghenion/ blaenoriaethau<br>• Mae archwilio, arolygu a chraffu'n gallu cyflawni rôl o ran cadw partneriaethau â phersonoliaethau newidiol ar y trywydd iawn | | am lywio'r agenda DC yng nghyd-destun partneriaeth<br>• Cryfhau'r ysgogiad i gydymffurfio â gofynion 'prif-ffrydio' A17 trwy ganllawiau newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Treialu trefniadau arolygu ac archwilio thematig ar y cyd sy'n ymwneud â 'lleihau aildroseddu' gyda chyfundrefnau archwilio ac arolygu datganoledig ac annatganoledig perthnasol<br>• Darparu arweinyddiaeth ac ysgogiad cryfach ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chyllidebu mewn modd sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gyrff y sector cyhoeddus (BGCau neu PDCau), gan roi ystyriaeth yn enwedig i hyblygrwydd sy'n symud cyfran y buddsoddiad o reoli'r galw 'mewn argyfwng' ac ar y pryd i atal, ymyrryd yn gynnar a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | rheoli'r galw yn y dyfodol |
| Patrymau rhanbarthol | • Mae'r diffyg 'patrymau rhanbarthol' cydffiniol yn creu agendâu/ blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd – yn enwedig i gyrff rhanbarthol sy'n gorfod gweithio ar draws ardaloedd mwy nag un ALl<br>• Mae'r ymgyrch gan Lywodraeth Cymru tuag at weithio'n fwy rhanbarthol yn creu 'haenau' ychwanegol o bartneriaethau gyda materion bwydo i fyny/i lawr (e.e. CONTEST, Cydlyniant)<br>• Mae diogelwch cymunedol, yn ôl ei natur, yn gymunedol (lleol) felly ceir tensiynau mewn perthynas â gweithio'n rhanbarthol i gefnogi prosesau cyflawni lleol (e.e. 5 ALl Gwent a sut i daro cydbwysedd o ran y 'flaenoriaeth' rhwng Trefynwy a Philgwenlli)<br>• Mae rôl sylweddol gwasanaethau arbenigol bach yn y trydydd sector | • Mae patrymau cydffiniol yn ei gwneud yn bosibl gweithio'n rhanbarthol i raddau mwy helaeth/mewn ffordd symlach (e.e. patrymau Gogledd Cymru)<br>• Trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd eglur rhwng partneriaethau rhanbarthol a lleol, gyda chyfathrebu effeithiol trwy raeadru i fyny/i lawr<br>• Cysondeb o ran y cynrychiolwyr o sefydliadau partner mewn fforymau rhanbarthol/lleol<br>• Cysylltiadau a sianeli cyfathrebu eglur rhwng y strategaeth genedlaethol a chyflawni'n rhanbarthol neu'n lleol (e.e. CONTEST, Troseddau Difrifol a Threfnedig)<br>• Rhesymeg glir ar gyfer yr hyn sy'n gweithio orau ar lefel ranbarthol a/neu leol yn hytrach na dyblygu neu orfodi trefniadau amhriodol | • Patrymau a threfniadau partneriaeth rhanbarthol | • Cwblhau adolygiad trawsadrannol sylfaenol o'r holl batrymau rhanbarthol a ddefnyddir wrth weithio mewn partneriaeth (e.e. PDCau, BGCau, PCRh a.y.b.) i sefydlu patrwm mwy cydffiniol, trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd cliriach a chael gwared ar wrthdaro a gorgyffyrddiadau a dyblygu diangen. Dylai rhanbarthau fod wedi'u diffinio yn ôl rhesymeg eglur sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio orau ar lefel ranbarthol a/neu leol a chyda'r dinesydd yn y canol<br>• Ystyried ad-drefnu sefydliadol i sicrhau patrwm mwy cydffiniol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | (Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cyfiawnder cymunedol) yn gwneud dulliau rhanbarthol a darbodion maint yn anodd i'w cyflawni<br>• Plwyfoldeb rhai aelodau etholedig sydd â chwilen yn eu pennau ynglŷn â chynrychioli eu ward eu hunain, heb sôn am y sir, mewn trefniant partneriaeth rhanbarthol<br>• Mae rhanbarthau fel arfer yn hanesyddol, yn wleidyddol neu'n gyfleus yn sefydliadol ac yn aml nid ydynt yn seiliedig ar ystyriaethau demograffig-ddaearyddol | sydd yr un fath i bob ardal<br>• Rheolaeth ofalus ar faterion democrataidd lleol, gan gydnabod bod gwleidyddion yn atebol yn y pen draw i'w priod etholwyr, nid partneriaethau rhanbarthol<br>• Mwy o ystyriaeth i anghenion demograffig-ddaearyddol (e.e. dinas-ranbarth neu Bowys/Swydd Amwythig) | | |

**CYNNWYS DINASYDDION**

**4. Darparu atebolrwydd gweladwy ac adeiladol am faterion diogelwch cymunedol sy'n ennyn ymgysylltiad ac yn cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt?**

| MATER A ADNABUWYD | RHWYSTRAU | FFACTORAU SY'N GALLUOGI | YR HYN Y MAE ANGEN IDDO NEWID | CYNIGION |
|---|---|---|---|---|
| Gormod o 'ymgynghori' a dim digon o gyfranogi | • Gormodiaeth o 'ymgynghori' ond | • Modelau mwy effeithiol ar gyfer cyfranogiad | • Mynediad gwell at arbenigedd mewn | • Sefydlu rhwydwaith amlasiantaeth |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gyda'r adborth lleiaf (e.e. 'fe ddwedoch chi, fe wnaethom ni...') a bron dim cyfranogi;<br>• Adnoddau cyfyngedig ar gyfer ymgynghori â dinasyddion – timau bach, cyllidebau bach a dim arian i'w fuddsoddi yn y paratoadau sylfaenol ar gyfer ymgysylltu ystyrlon<br>• Dim digon o ymgysylltu â 'defnyddwyr gwasanaethau' cyn cynllunio, dylunio a chomisiynu gwasanaethau fel eu bod yn fwy effeithiol, priodol, perthnasol ac, yn y pen draw, yn fwy llwyddiannus;<br>• Rydym yn trefnu ac yn brigadu ein gwasanaethau a'n strwythurau mewn modd sy'n gweddu i ni, nid y dinesydd – er enghraifft mae 'trosglwyddiadau cynnes' a sefyllfaoedd 'dwedwch wrthym unwaith' yn gyfyngedig<br>• Mae peidio â rhannu data ymgynghori'n arwain at ddyblygu | dinasyddion yn seiliedig ar 'storïau dinasyddion' (e.e. SenseMaker, Model Kafka, Planning for Real)<br>• Ymgysylltu mwy targededig (e.e. defnyddwyr gwasanaethau) yn hytrach na dulliau eang, generig<br>• Mwy o eglurder ynghylch diben/ cwmpas yr ymgysylltu<br>• Dull amlasiantaeth o gydgysylltu gweithgarwch ymgynghori â dinasyddion a'r broses o rannu canfyddiadau a data (e.e. 'Ask Cardiff')<br>• Mae grwpiau'r trydydd sector mewn cymunedau'n aml mewn sefyllfa well i hwyluso ymgysylltu ystyrlon ond mae angen iddynt gael eu cynnwys yn gynharach wrth gydgynhyrchu gwaith ymgysylltu<br>• Asiantaethau statudol yn fwy gweladwy yn eu cymunedau i feithrin gweithgarwch ymgysylltu a chynnwys | cynnwys dinasyddion (e.e. pecynnau cymorth, astudiaethau achos 'beth sy'n gweithio' sy'n enghreifftio arfer effeithiol)<br>• Mwy o fuddsoddi mewn dulliau mwy arloesol a chynhwysol, yn gysylltiedig â 'busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth'<br>• Gweithgarwch cynnwys dinasyddion a'r broses o rannu data'n cael eu cydgysylltu'n well ar draws partneriaid<br>• Mwy o gydnabyddiaeth a chydraddoldeb i bartneriaid y trydydd sector ac ymrwymiad gwirioneddol yn hytrach na gwasanaeth gwefusau i gysyniad y 'Gymdeithas Fawr'<br>• Modelau cydweithredol a chydgynhyrchu ar gyfer cynnwys dinasyddion ar draws yr holl bartneriaethau perthnasol a'u priod asiantaethau | cenedlaethol o arbenigwyr ymgysylltu â dinasyddion, cynnwys dinasyddion a chyfranogiad dinasyddion i ddatblygu a hyrwyddo offer ac arfer mwy effeithiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru<br>• Cryfhau'r ysgogiad ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion a'u cynnwys yn fwy effeithiol trwy ganllawiau newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Ailsefydlu tîm polisi ac arfer 'partneriaeth' Diogelwch Cymunedol yn Llywodraeth Cymru<br>• Ailsefydlu llyfrgell a chronfa ddata adnoddau ar-lein i Gymru sy'n cynnwys canllawiau, pecynnau cymorth, adnoddau dysgu ar-lein, arfer effeithiol, astudiaethau achos, gwaith ymchwil a gwerthuso ym maes diogelwch cymunedol<br>• Ailsefydlu rhaglen dysgu a datblygu ym maes Diogelwch |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Sut ydym yn diffinio 'cymuned' – e.e. cymunedau rhithwir, cymunedau buddiant yn hytrach na dim ond cymunedau daearyddol, y mae llawer ohonynt heb ymdeimlad o 'gymuned', llain gymudo;<br>• Nid yw PDCau yn cyfathrebu'n effeithiol gyda dinasyddion, dydyn ni ddim yn egluro 'dyma ein strategaeth' nac yn rhoi eglurder i gymunedau o ran yr hyn yr ydym yn ei addo a'r hyn yr ydym yn ei ddarparu ac, yn yr un modd, yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan gymunedau i'n helpu;<br>• Mae dulliau 'storïau' dinasyddion (e.e. SenseMaker, model Kafka, Planning for Real) yn darparu mwy o wybodaeth na holiaduron ticio bylchau, ond mae angen mwy o ymdrech gyda hwy ac nid ydynt yn trosi'n rhwydd yn ddata meintiol a graffiau/siartiau; | gwell (e.e. 'hybiau cymunedol')<br>• Mae BGCau wedi gwneud mwy o ymdrech o ran 'cynnwys' ond maent yn dal i'w chael yn anodd – mae ymgyrchoedd yn y cyfryngau cymdeithasol yn arwain at fwy o ymgysylltu a hwnnw'n ymgysylltu ehangach ond mae risgiau i'w cael (e.e. newyddion ffug, 'rhyfelwyr bysellfwrdd' annodweddiadol ond llafar iawn, nid yw nifer y 'dilynwyr' o anghenraid yn golygu cefnogaeth i safbwynt);<br>• Mae cyllidebu cyfranogol (o'i reoli'n briodol) wedi profi'n effeithiol ac yn cael ei fabwysiadu'n ehangach (e.e. Caeredin)<br>• Mae cyfoeth o brofiad ac arbenigedd mewn perthynas â modelau ymgysylltu, ymgynghori a chyfranogi effeithiol i dynnu arnynt<br>• Mae deialog barhaus | | Cymunedol sy'n benodol i Gymru ac yn cynnwys themâu amrywiol a nodwyd drwy'r ddogfen hon (datrys problemau mewn partneriaethau, proses fusnes seiliedig ar gudd-wybodaeth, dadansoddi, rheoli a gwerthuso prosiectau, comisiynu, ymgysylltu cymunedol a.y.b.)<br>• Adfywio WACSO fel rhwydwaith cenedlaethol arbenigol mwy cynhwysol o ymarferwyr diogelwch cymunedol arweiniol sy'n gwasanaethu ardal pob awdurdod unedol (o ALlau, yr Heddlu, Swyddfeydd Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Gwasanaeth Prawf, Iechyd, y Trydydd Sector a.y.b.) ymchwilwyr, llunwyr polisïau – yn seiliedig ar fodel SCSN yn yr Alban – gallai hyn gynnwys yr ail a'r trydydd argymhelliad uchod<br>• Darparu |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Peidiwch â gofyn beth y mae ar ddinasyddion ei eisiau os nad ydych yn fodlon ei roi (e.e. os yw'n golygu newid mewn arfer, buddsoddiad nad ydych yn gallu ei fforddio) gan fod hyn yn arwain at ymddieithrio; | (e.e. Paneli Dinasyddion) yn fwy effeithiol na mecanweithiau ar hap sy'n dechrau a pheidio bob yn ail) | | arweinyddiaeth ac ysgogiad cryfach ar gyfer cynllunio gwasanaethau a chyllidebu mewn modd sy'n fwy 'seiliedig ar le' gan gyrff y sector cyhoeddus (BGCau neu PDCau)<br>• Adolygu Cynllun y Trydydd Sector a chytundebau/ compactau eraill i gryfhau rôl a chydraddoldeb sefydliadau'r trydydd sector mewn trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth<br>• Datblygu dull sy'n fwy soffistigedig ac yn fwy cadarn yn wyddonol o fonitro canfyddiad a hyder y cyhoedd yn lle mesuriadau sy'n defnyddio arolygon o 'ofn troseddau' ac arolygon traddodiadol o droseddau yng Nghymru |
| Syndrom 'Blwch Du' – a oes gan 'ddinasyddion' ddiddordeb go iawn yn y modd y caiff gwasanaethau eu cyflunio? Dim ond eu bod yn | • Dim digon o ymgysylltu â 'defnyddwyr gwasanaethau' cyn cynllunio, dylunio a chomisiynu | • Mwy o rôl i 'gyfiawnder cymunedol' (ymgyrch gan y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder cyn 2011) gyda mwy o ffocws ar | • Dealltwriaeth gliriach a diffiniad cliriach o ran 'disgwyliadau cwsmeriaid' ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir | FEL YR UCHOD A HEFYD:<br>• Datblygu canllawiau trawslywodraethol priodol ynghylch prosesau cynllunio a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| hygyrch pan fo'u hangen a'u bod yn gweithio i ddiwallu'r angen. | gwasanaethau fel eu bod yn fwy effeithiol, priodol, perthnasol ac, yn y pen draw, yn fwy llwyddiannus;<br>• Modelau canolfannau galw – maent fel arfer yn gweddu i ddarparwyr gwasanaethau ond nid i ddinasyddion, sy'n dymuno dulliau 'un drws ffrynt', rhwyddineb cyswllt, y tu allan i oriau swyddfa, 'dywedwch wrthym unwaith' – nid cael eu hanfon yn ôl ac ymlaen yn ailadrodd y mater nes bod rhywun yn cymryd cyfrifoldeb | wneud iawn, dedfrydau adferol, blaenoriaethau a nodwyd gan y gymuned ar gyfer prosesau'r llysoedd, cyllidebu cyfranogol a.y.b.;<br>• Cyfoeth o ddata o ymgyngoriadau â defnyddwyr gwasanaethau sy'n dweud yr un pethau wrthym am yr hyn sy'n bwysig | • Adborth gwell i'r cwsmer – h.y. os nad yw'r gwasanaeth yn gallu cael ei ddarparu fel y maent yn ei ddisgwyl am reswm da<br>• Mynediad gwell at arbenigedd mewn cynnwys dinasyddion (e.e. pecynnau cymorth, astudiaethau achos 'beth sy'n gweithio' sy'n enghreifftio arfer effeithiol)<br>• Gweithgarwch cynnwys dinasyddion a'r broses o rannu data'n cael eu cydgysylltu'n well (yn enwedig 'defnyddwyr gwasanaethau') ar draws partneriaid<br>• Deialog barhaus fwy systematig gyda defnyddwyr gwasanaethau i fireinio'r modd y darperir gwasanaethau | chomisiynu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, yn amlasiantaethol (cydweithredol) ac yn seiliedig ar gudd-wybodaeth a thystiolaeth ac sy'n ategu ac yn adeiladu ar ganllawiau statudol presennol (e.e. Camddefnyddio Sylweddau, Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol)<br>• Sefydlu rhaglen hyfforddiant briodol ar gomisiynu mewn partneriaeth (fel rhan o ymateb 'Gwybodaeth a Sgiliau Priodol' ehangach) |
| Grwpiau 'anodd i'w cyrraedd' fel y'u gelwir | • Mae anghenion cymhleth yn creu rhwystrau i fathau mwy traddodiadol o ymgynghori gan asiantaethau statudol – e.e. iaith, diwylliant, bywydau anhrefnus, diffyg ymddiriedaeth ac ymddieithriad, anghenion dysgu, | • Mae gan grwpiau cymunedol gryfderau digyffwrdd o ran ennyn ymgysylltiad rhai sydd wedi'u hymyleiddio (e.e. defnyddwyr gwasanaethau, gwasanaethau allgymorth)<br>• Mae cyfoeth o brofiad ac arbenigedd mewn | • Sicrhau cydbwysedd o ran ymgysylltu ag amrywiaeth o'r boblogaeth trwy ddatblygu rhwydwaith unigolion allweddol (KIN) trwy sefydliadau cymunedol ac ymarferwyr rheng-flaen<br>• Mwy o fuddsoddi mewn dulliau mwy arloesol a | FEL YR UCHOD |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | iechyd meddwl ac iechyd emosiynol<br>• Adnoddau cyfyngedig ar gyfer ymgysylltu â dinasyddion – timau bach, cyllidebau bach a dim arian i'w fuddsoddi yn y gwaith paratoi ar gyfer ymgysylltu ystyrlon<br>• Maent yn 'anodd i'w cyrraedd' am reswm – cylch dieflig methu ag ymateb i'w hanghenion cymhleth, gan ymddieithrio'n fwy a dod yn anos byth i'w cyrraedd gydag anghenion mwy cymhleth byth ond nid ydynt yn pleidleisio nac yn lleisio'u barn felly nid ydynt yn cael eu blaenoriaethu | perthynas â modelau ymgysylltu, ymgynghori a chyfranogi effeithiol i dynnu arnynt<br>• Modelau mwy effeithiol ar gyfer cyfranogiad dinasyddion yn seiliedig ar 'storïau dinasyddion' (e.e. SenseMaker, Model Kafka, Planning for Real)<br>• Twf yn y defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ymhlith grwpiau 'anodd i'w cyrraedd' | chynhwysol, sy'n gysylltiedig â sefydliad 'busnes seiliedig ar gudd-wybodaeth<br>• Mwy o ffocws ar fesur 'galw heb ei adnabod' – nid yw'r ffaith nad yw pobl yn defnyddio'r gwasanaeth yn golygu nad oes mo'i angen; efallai ei fod yn syml yn cael ei ddarparu mewn modd amhriodol<br>• Mwy o gydnabyddiaeth a chydraddoldeb i bartneriaid y trydydd sector ac ymrwymiad gwirioneddol yn hytrach na gwasanaeth gwefusau i gysyniad y 'Gymdeithas Fawr'<br>• Modelau cydweithredol a chydgynhyrchu ar gyfer cynnwys dinasyddion ar draws yr holl bartneriaethau perthnasol a'u priod asiantaethau | |
| Gwleidyddiaeth ac atebolrwydd democrataidd | • Gorwelion etholiadol – mentrau polisi byrdymor wedi'u bwriadu i gyflawni amcanion gwleidyddol sy'n ennill pleidleisiau yn hytrach na chynaliadwyedd;<br>• Gor-ddibyniaeth ar y 'cyfranogwyr arferol' – | • A oes rôl fwy rhagweithiol i gynghorwyr lleol? Yn hytrach na disgwyl i gynghorwyr wardiau gyflwyno'r cwynion gan y cyfranogwyr arferol a'r rhai 'iach pryderus' i'r partneriaid statudol, a | • Mwy o ymdrech a buddsoddiad i weithio'n rhagweithiol gyda chynghorwyr sir a chymuned a chynrychiolwyr eraill sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd – gan eu hysbysu'n fwy trylwyr am yr | AS ABOVE PLUS:<br><br>• Egluro rôl gwleidyddion etholedig (gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a chynghorwyr lleol) o ran craffu ar weithgareddau ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | y rhai mwyaf llafar, mwyaf rhugl, â'r cysylltiadau gorau a'r rhai 'iach pryderus'<br>• Gormod o ffocws ar y rhai 'anfodlon' – mae tuedd naturiol i bobl fynegi teimladau o anfodlonrwydd neu lawenydd mawr ond nid bodlonrwydd – a ydym yn disgrifio'n glir y safonau yr ydym yn disgwyl eu cyrraedd wrth ddarparu gwasanaethau?;<br>• Mae grwpiau wedi'u hymyleiddio'n cael eu hanwybyddu – y person ifanc sydd wedi cyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol, y camddefnyddiwr sylweddau sydd â bywyd anhrefnus, sipsiwn a theithwyr<br>• Mae strwythurau gwleidyddol yn ganrifoedd oed ac nid ydynt yn addas ar gyfer y diben – dim ond lle maent yn teimlo'n gyfforddus y mae cynghorwyr yn ennyn ymgysylltiad dinasyddion (er enghraifft plant sy'n cyflawni ymddygiad | ddylem ni fod yn cyflwyno'r materion iddynt hwy ac yn gofyn iddynt helpu i ymgysylltu â'u hetholwyr – cylch daionus gan y gallai etholwyr amlygu materion sy'n galw am ddatrysiadau gwleidyddol ar lefel leol, ar lefel Cymru neu ar lefel y DU<br>• Nifer cynyddol o gynghorwyr ifancach a chanddynt syniadau a dulliau mwy modern, gan gynnwys ymgyrchwyr o gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio<br>• Mae ymchwil gwyddor gymdeithasol i'r bwlch rhwng canfyddiad a'r realiti ac 'ofn troseddau' fel y'i gelwir yn rhoi dealltwriaeth gliriach | anghenion ymgynghori, ymgysylltu, cynnwys a chyfranogi a mynd ati'n well i harneisio'u statws a'u rhwydweithiau mewn priod gymunedau<br>• Sicrhau cydbwysedd o ran cadarnhau 'tystiolaeth' o'r materion a godwyd (h.y. 'problem fawr' nid dim ond yn seiliedig ar un neu ddau o bobl yn dweud wrth y cynghorydd ond yn cael ei ategu gan alwadau am wasanaeth, y cyfryngau cymdeithasol a.y.b.<br>• Sicrhau cydbwysedd o ran ymgysylltu ag amrywiaeth o'r boblogaeth trwy ddatblygu rhwydwaith unigolion allweddol (KIN) trwy sefydliadau cymunedol ac ymarferwyr rheng-flaen<br>• Rhoi'r gorau i gysyniad arolygon o 'ofn troseddau' gan ffafrio methodolegau sy'n fwy soffistigedig ac yn fwy cadarn yn wyddonol | effeithiolrwydd partneriaethau diogelwch cymunedol trwy ganllawiau newydd ar gyfer PDCau/BGCau yng Nghymru<br>• Sefydlu deialog gyda'r Swyddfa Gartref i ystyried priodoldeb diweddaru Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998 mewn ffordd sy'n rhoi adlewyrchiad gwell o ddatganoli yng Nghymru. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | gwrthgymdeithasol, pwy sy'n fodlon estyn allan atynt pan ydynt yn achosi niwsans, yn cynhyrfu pleidleiswyr a.y.b., gan fod gwasanaethau a chanolfannau ieuenctid wedi cael eu cau oherwydd toriadau?) | | | |